# Unedau

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys unedau 4, 5, 8, 28 ar gyfer Tystysgrif Estynedig Pearson BTEC Lefel 3 Cenedlaethol mewn Amaethyddiaeth.

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg i gefnogi addysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Mae uned 1 ar gael yn Saesneg yn unig, gan mai dim ond yn Saesneg y mae asesu allanol ar gael ar hyn o bryd.**

**Beth sydd ar gael i bob uned yn Gymraeg?**

Yn achos pob uned, fe gewch yr wybodaeth angenrheidiol i addysgu'r cymhwyster BTEC hwn trwy gyfrwng y Gymraeg:

- cyflwyniad
- nodau dysgu
- meini prawf asesu
- arweiniad i athrawon.

**Ble galla i gael hyd i weddill y fanyleb?**

I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y cymhwyster cyfan, gan gynnwys:

- strwythur a rhesymeg y cymhwyster a'r unedau
- cyflwyno'r rhaglen a recriwtio iddi
- asesu mewnol ac allanol
- sicrhau ansawdd
- graddio ac ardystio

bydd angen i chi gyfeirio at y fanyleb Saesneg, sydd ar gael ar y wefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon (https://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-nationals/agriculture-2019.html).

**Pa gefnogaeth sydd ar gael?**

Os bydd angen rhagor o gefnogaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â'n timau gwasanaethau addysgu. Cewch hyd i'r holl fanylion cyswllt angenrheidiol yn qualifications.pearson.com/contactus

# Uned 4: Profiad Gwaith yn y Sectorau Tir

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i gyfleoedd gwaith yn y sectorau tir a'r sgiliau angenrheidiol i'w hennill, gan ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chyflogadwyedd trwy astudio a phrofiad gwaith.

## Cyflwyniad i'r uned

Ble hoffech chi fod ymhen pum mlynedd? Wyddoch chi am yr amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael i chi yn y sectorau tir? Bydd darganfod y cyfleoedd hyn a deall y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol er mwyn ennill cyflogaeth yn y sectorau hyn yn eich helpu i ateb rhai o'r cwestiynau hyn ynghyd â chynllunio'ch gyrfa.

Yn yr uned hon, ynghyd ag ymchwilio i gyfleoedd cyflogaeth, byddwch yn archwilio sut gall sgiliau cyfathrebu a chyflogadwyedd da wella eich rhagolygon wrth ennill a chadw cyflogaeth. Byddwch yn dysgu sut a ble i ganfod gwybodaeth am swyddi gwag a chyrsiau astudio pellach ynghyd â sut i ddatblygu eich curriculum vitae (CV) a'i addasu ar gyfer swyddi gwag penodol. Byddwch hefyd yn dysgu sut i ddatblygu sgiliau da o ran cyfathrebu, cyfweld a gwasanaethu cwsmeriaid. Byddwch yn gwneud cais am rolau profiad gwaith sydd ar gael yn y sector ac yn eu cyflawni, ac yn myfyrio ar eich cynnydd eich hun.

Bydd yr uned hon yn helpu i'ch paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y sectorau tir mewn meysydd megis coedwigaeth, coedyddiaeth, dyframaeth, tirweddu, garddwriaeth, ffensio, rheoli pysgodfeydd, blodeuwriaeth, ciperiaeth, cadwraeth, rheoli cefn gwlad a rheoli bywyd gwyllt, a'u diwydiannau gwasanaeth cysylltiedig. Bydd hefyd yn eich helpu i symud ymlaen i addysg uwch mewn cyrsiau megis graddau BSc (Anrh) mewn amaethyddiaeth, rheoli cefn gwlad, garddwriaeth a rheoli coedwigaeth.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Ymchwilio i gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau tir er mwyn targedu sut i symud ymlaen

**B** Datblygu sgiliau cyfathrebu a chyfweliad i wella rhagolygon cyflogaeth yn y sectorau tir

**C** Cyflawni profiad gwaith yn y sectorau tir i gyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol.

 © Pearson Education Limited 2021

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Ymchwilio i gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau tir er mwyn targedu sut i symud ymlaen | **A1** Cwmpas y sectorau tir<br>**A2** Gofynion symud ymlaen<br>**A3** Deddfwriaeth berthnasol ar gyfer cyfleoedd lleoliadau gwaith | Portffolio o ymchwil dysgu cysylltiedig â gwaith, dogfennau cais wedi'u cwblhau a deilliannau cyfweliadau ffug, e.e. arsylwi, fideo. |
| **B** Datblygu sgiliau cyfathrebu a chyfweliad i wella rhagolygon cyflogaeth yn y sectorau tir | **B1** Ymgeisio am weithgareddau cysylltiedig â gwaith<br>**B2** Sgiliau cyfweliad<br>**B3** Myfyrio ar y paratoi a'r perfformiad | |
| **C** Cyflawni profiad gwaith yn y sectorau tir i gyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol | **C1** Profiad gwaith ymarferol<br>**C2** Ymddygiad gwaith<br>**C3** Myfyrio ar arferion gweithle | Adroddiad yn myfyrio ar brofiad gwaith, wedi'i hysbysu gan ddilysiad cyflogwr o gyfranogiad ac adborth arall. |

 © Pearson Education Limited 2021

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Ymchwilio i gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau tir er mwyn targedu sut i symud ymlaen

#### A1 Cwmpas y sectorau tir

- Dadansoddi cyfleoedd symud ymlaen i bennu addasrwydd, dichonoldeb a pha mor ddymunadwy ydynt.
- Sectorau tir – cynrychioliaeth eang priodol o ddiwydiannau cyfredol, e.e. cynhyrchu cnydau, da byw amaethyddol, dyframaeth, cadwraeth amgylcheddol, rheoli cefn gwlad, ffensio, rheoli pysgodfeydd, blodeuwriaeth, ciperiaeth a rheoli bywyd gwyllt, peirianneg tir, tirweddu, garddwriaeth cynhyrchu ac amwynderau, coedwigaeth a choedyddiaeth.
- Cyfleoedd – yr amrediad o gyfleoedd gyrfa a symud ymlaen sydd ar gael o fewn y sector a ddewisir a'r cyfleoedd o fewn sectorau cysylltiedig, e.e. manwerthu, hamdden, twristiaeth, lletygarwch.
- Addysg uwch – UCAS, gofynion mynediad, benthyciadau myfyrwyr.
- Prentisiaethau – gofynion, amserlenni, graddfeydd tâl, cydbwysedd rhwng gwaith academaidd ac ymarferol, asesiadau, prentisiaethau uwch.
- Sectorau cyflogaeth:
  - sector cyhoeddus, e.e. addysg, llywodraeth, llywodraeth leol, swyddog/ceidwad cefn gwlad, meysydd a pharciau cyhoeddus
  - sector preifat, e.e. parciau gwledig, canolfannau garddio
  - sector gwirfoddol neu elusennau, e.e. ymddiriedolaethau natur, parciau bywyd gwyllt.
- Sectorau cyflogaeth, i gynnwys cynrychioliaeth eang priodol o ddiwydiannau cyfredol, e.e. gwerthiannau amaethyddol, cynhyrchu bwyd, dyframaeth, blodeuwriaeth, garddwriaeth cynhyrchu, peirianneg tir.
- Hunangyflogaeth, e.e. ciper, contractiwr amaethyddol, coediwr, garddwr.

#### A2 Gofynion symud ymlaen

Gwybodaeth am y gofynion ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer symud ymlaen.

- Meini prawf mynediad, gan gynnwys cymwysterau, sgiliau a gwybodaeth.
- Hunan-reolaeth, gan gynnwys sgiliau astudio, cyflwyno ac ymagwedd, rheoli amser a chynllunio.
- Meini prawf gadael ar gyfer llwybrau dilyniant penodol.
- Sgiliau meddal, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, datrys problemau, unigol a thîm ac arweinyddiaeth, rheolaeth bersonol.

#### A3 Deddfwriaeth berthnasol ar gyfer cyfleoedd lleoliadau gwaith

- Diogelu mewn lleoliadau gwaith.
- Contractau cyflogaeth ac oriau gwaith (yn ôl oedran), gan gynnwys contractau oriau sero/oriau sefydlog/fesul awr/parhaol (amser llawn/rhan-amser), Rheoliadau Amser Gwaith 1998, Talu Wrth Ennill (PAYE), absenoldeb statudol, absenoldeb mamolaeth/tadolaeth, statws cyflogaeth.
- Statws cyfreithiol gwahanol busnesau: perchennog unigol (hunangyflogedig)/partneriaeth/cwmni cyfyngedig/is-gontractiwr hunangyflogedig.
- Ymwybyddiaeth o effaith deddfwriaeth gyfredol wrth gefnogi ymddygiad yn y gweithle ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr (amser llawn, rhan-amser, achlysurol, interniaid a lleoliadau gwaith), megis:
  - Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974
  - Deddf Cydraddoldeb 2010
  - Deddfwriaeth Diogelu Data
  - Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002
  - Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013
  - Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

## Nod dysgu B: Datblygu sgiliau cyfathrebu a chyfweliad i wella rhagolygon cyflogaeth yn y sectorau tir

### B1 Ymgeisio am weithgareddau cysylltiedig â gwaith

- Dethol gwaith, gan gynnwys gwahanol ffynonellau swyddi gwag megis gwefannau, cyhoeddiadau masnachol a chyrff sector cyfan, e.e. Lantra.
- Pwysigrwydd darllen swydd ddisgrifiad, manyleb person, gan gynnwys perthnasedd meini prawf hanfodol neu ddymunol, gan gynnwys cymwysterau, sgiliau, profiad.
- Cwblhau CV ac addasu CV neu gais am swydd i swydd wag benodol.
- Llythyron cais, datganiadau cefnogi a chwblhau ffurflenni cais, gan gynnwys serennu ymhlith cymheiriaid, trafod perthnasedd i'r cyflogwyr a sut gallent fynd ati i ffurfio rhestr fer.
- Defnyddio iaith, gramadeg, sillafu ac atalnodi yn gywir.

### B2 Sgiliau cyfweliad

Creu argraff trwy gyfathrebu effeithiol.

- Sgiliau paratoi a chyflwyno, gan gynnwys:
  - cynllunio ac ymarfer ar gyfer y cyfweliad
  - arddulliau cyfweliad, e.e. ar sail gallu neu ymddygiad, canolbwyntio ar wybodaeth
  - gwedd bersonol a hylendid
  - sgiliau rhyngbersonol ac agwedd
  - iaith y corff.
- Sgiliau gwrando a siarad, gan gynnwys:
  - confensiynau cyfweliad
  - defnydd o iaith – yr hyn sy'n/nad yw'n briodol
  - adeiladu cydberthynas
  - datblygu deialog
  - gwrando a holi effeithiol
  - cyfathrebu di-eiriau, e.e. cyswllt llygad.

### B3 Myfyrio ar y paratoi a'r perfformiad

- Myfyrio ar y paratoi ar gyfer cyfweliadau a'r perfformiad mewn cyfweliadau, gan gynnwys gwybodaeth am y cyflogwr a'r rôl, sgiliau cyfathrebu, ymddygiad proffesiynol.

## Nod dysgu C: Cyflawni profiad gwaith yn y sectorau tir i gyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol

### C1 Profiad gwaith ymarferol

Gweithredu o fewn arferion gweithle, gan gynnwys:

- gwybodaeth am ddiben y busnes a/neu'r amgylchedd
- gwybodaeth am weithdrefnau adrodd o ran ymddygiad a disgwyliadau, e.e. bod yn hwyr, salwch, argyfyngau
- protocolau iechyd a diogelwch, e.e. diogelwch tân, gweithdrefnau brys
- gweithdrefnau cynnal cyfrinachedd.

 © Pearson Education Limited 2021

### C2 Ymddygiad gwaith

- Cwblhau rôl i ychwanegu gwerth yn y gweithle:
  - deall cwmpas a chyfyngiadau eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain
  - cyflawni tasgau yn unol â rolau a chyfrifoldebau
  - dilyn cyfarwyddiadau
  - cyfathrebu ag eraill
  - hunan-reolaeth
  - gweithio'n ddiogel
  - dibynadwyedd, mynychu'n rheolaidd ac ymroddiad
  - prydlondeb
  - defnyddio menter
  - cydweithio â chydweithwyr a defnyddwyr terfynol, e.e. cwsmeriaid, cleientiaid, sefydliadau eraill.
- Ceisio adborth, gan gynnwys:
  - taflenni amser wedi'u llofnodi gan berson penodedig yn y gyflogaeth profiad gwaith, yn cadarnhau presenoldeb a phrydlondeb priodol
  - arsylwadau cyflogwyr neu athrawon/datganiadau tystion
  - taflenni adborth cyflogwyr, wedi'u darparu'n gyfnodol.

### C3 Myfyrio ar arferion gweithle

Myfyrio ar berfformiad personol o ran eu dilyniant gyrfa eu hunain, gan gynnwys:

- adborth ffurfiannol gan gyflogw(y)r, cydweithwyr, athrawon, rhanddeiliaid
- hunan-asesu perfformiad
- adolygu meysydd i'w datblygu, gan gynnwys dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau), gosod targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol), gwybodaeth am SWOT a CAMPUS (SMART) ym maes datblygu dysgu.

 © Pearson Education Limited 2021 

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
| --- | --- | --- |
| **Nod dysgu A: Ymchwilio i gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau tir er mwyn targedu sut i symud ymlaen** | | |
| **A.Ll1** Esbonio gwerth eu hymchwil a'u gwaith paratoi eu hunain ar gyfer profiad gwaith, cyfleoedd cysylltiedig a llwybrau dilyniant.<br>**A.Ll2** Esbonio'n gywir y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â lleoliad gwaith. | **A.T1** Dadansoddi gwerth eu hymchwil a'u gwaith paratoi eu hunain ar gyfer profiad gwaith, cyfleoedd cysylltiedig a llwybrau dilyniant. | **A.Rh1** Gwerthuso sut gall paratoi effeithiol ar gyfer profiad gwaith wella rhagolygon cyflogaeth yn sylweddol. |
| **Nod dysgu B: Datblygu sgiliau cyfathrebu a chyfweliad i wella rhagolygon cyflogaeth yn y sectorau tir** | | |
| **B.Ll3** Esbonio'r gwaith paratoi a'r ymchwil a gyflawnwyd ar gyfer cyfweliad profiad gwaith.<br>**B.Ll4** Arddangos sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol fel cyfwelai ar gyfer profiad gwaith a ddewiswyd. | **B.T2** Perfformio'n hyfedr fel cyfwelai ar gyfer profiad gwaith a ddewiswyd, gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol priodol. | **B.Rh2** Gwerthuso'u gwaith paratoi a'u perfformiad eu hunain mewn cyfweliad profiad gwaith, gan gynnwys adolygu'r holl gyfleoedd i'r dyfodol. |
| **Nod dysgu C: Cyflawni profiad gwaith yn y sectorau tir i gyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol** | | |
| **C.Ll5** Esbonio sut mae'r profiad gwaith a gyflawnwyd wedi gwella sgiliau galwedigaethol a phersonol ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.<br>**C.Ll6** Adolygu sut gwnaeth eu perfformiad eu hunain yn ystod y profiad gwaith gyfrannu at y cyflogwr. | **C.T3** Asesu gwerth y sgiliau galwedigaethol a phersonol a ddatblygwyd yn ystod y profiad gwaith ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.<br>**C.T4** Dadansoddi effaith eu perfformiad eu hunain ar y cyflogwr yn ystod y profiad gwaith. | **C.Rh3** Gwerthuso effeithiolrwydd y profiad gwaith a gyflawnwyd o ran gwella sgiliau galwedigaethol a phersonol er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. |

 © Pearson Education Limited 2021

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o ddau aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nodau dysgu: A a B (A.Ll1, A.Ll2, B.Ll3, B.Ll4, A.T1, B.T2, A.Rh1, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T3, C.T4, C.Rh3)

 © Pearson Education Limited 2021

## Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

### Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, rhaid i'r dysgwyr gael mynediad i rôl profiad gwaith, er enghraifft lleoliadau gwaith, gwaith rhan-amser, gwirfoddoli etc. Rhaid i'r cyflogwyr fod tu allan i'r ganolfan.

Dylai'r athrawon ystyried llunio cyfres o feini prawf y gallant ei defnyddio i roi adborth wrth gynnal cyfweliadau ffug.

### Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

#### Nodau dysgu A a B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn llunio adroddiad ysgrifenedig yn gwerthuso ansawdd eu gwaith paratoi eu hunain wrth geisio profiad gwaith. Bydd hyn yn cynnwys eu gwaith archwilio ac ymchwil a gyflawnwyd, cwblhau dogfennau cais a addaswyd at rolau penodol, a chwblhau cyfweliad ffug neu gyfweliad go iawn gyda thystiolaeth gan gyflogwr. Bydd yr adroddiad yn cynnwys casgliadau am ansawdd pob cam o'r gwaith paratoi, gan gysylltu hynny â gwerthusiad yr athro o'r cyfweliad ffug a'r cyfle i ennill cyflogaeth. Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu casgliad sy'n cynnwys dealltwriaeth glir o arfer gorau yn y maes hwn.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn llunio dadansoddiad ysgrifenedig o ansawdd eu gwaith paratoi eu hunain wrth geisio profiad gwaith. Bydd hyn yn cynnwys eu gwaith archwilio ac ymchwil a gyflawnwyd, cwblhau dogfennau cais a addaswyd at rolau penodol, a chwblhau cyfweliad ffug da neu gyfweliad go iawn gyda thystiolaeth gan gyflogwr. Bydd y dadansoddiad yn cynnwys archwiliad manwl o bob cam o'r paratoi, gan gysylltu hyn â'r cyfle i ennill cyflogaeth. Bydd y dysgwyr yn cynnwys dadansoddiad o werthusiad yr athro o'r cyfweliad ffug.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn ystyried gwerth eu gwaith paratoi eu hunain wrth geisio profiad gwaith, er enghraifft y gwaith archwilio ac ymchwil a gyflawnwyd, cwblhau dogfennau cais a addaswyd at rolau penodol, a chwblhau cyfweliad ffug neu gyfweliad go iawn gyda thystiolaeth gan gyflogwr. Bydd y dysgwyr yn cynnwys cysylltiadau i werthusiad yr athro o'r cyfweliad ffug. Gallai'r dysgwyr gynnwys dadansoddiad SWOT.

#### Nod dysgu C

Bydd angen i'r dysgwyr adolygu a myfyrio ar eu hamser yn cyflawni profiad gwaith. Bydd hyn yn gysylltiedig â nifer yr oriau sy'n ofynnol gan y cymhwyster.

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyflawni profiad gwaith ac yn rhoi rhesymau yn eu hadroddiadau myfyriol dros bennu effeithiolrwydd y profiad gwaith a gyflawnwyd a'i allu i wella eu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd eu rhesymu yn ystyried y berthynas rhwng y sgiliau galwedigaethol a phersonol a ddatblygwyd yn ystod y profiad gwaith a sut gallai'r rhain eu helpu i ennill cyflogaeth yn y dyfodol. Bydd y berthynas rhwng perfformiad y dysgwyr eu hunain yn ystod y profiad gwaith ac effaith hynny ar y cyflogwr hefyd yn cael sylw. Bydd y dysgwyr yn ystyried pa mor dda roeddent wedi ymbaratoi ar gyfer y gweithgareddau profiad gwaith er mwyn elwa fwyaf o'r profiad(au). Dylai myfyrdodau'r dysgwyr ystyried adborth y cyflogwr a'r athro, ac arsylwadau amdanynt yn ystod eu profiad gwaith.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cyflawni profiad gwaith ac yn cyflwyno yn eu hadroddiadau myfyriol y berthynas rhwng y sgiliau galwedigaethol a phersonol a ddatblygwyd yn ystod eu profiad gwaith, a thrafodaeth ynghylch sut bydd y sgiliau hyn yn helpu i sicrhau cyflogaeth. Bydd y dysgwyr yn ystyried y berthynas rhwng eu perfformiad eu hunain yn ystod y profiad gwaith a'i effaith ar y cyflogwr. Dylai myfyrdodau'r dysgwyr ystyried adborth y cyflogwr a'r athro, ac arsylwadau amdanynt yn ystod eu profiad gwaith.

 © Pearson Education Limited 2021

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflawni profiad gwaith ac yn cyflwyno yn eu hadroddiadau myfyriol ystyriaeth o sut y bu iddynt ddatblygu sgiliau galwedigaethol a phersonol gwahanol yn ystod eu lleoliad. Bydd y dysgwyr yn llunio asesiad ffurfiol o'u perfformiad eu hunain yn ystod y profiad gwaith yn seiliedig ar adborth, gan gynnwys dadansoddiad SWOT, ac yn cysylltu hyn â'u cyfraniad i'r cyflogwr. Dylai myfyrdodau'r dysgwyr ystyried adborth y cyflogwr a'r athro, a'u harsylwadau amdanynt yn ystod eu profiad gwaith.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â phob uned arall yn y fanyleb.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- gweithdai technegol yn cynnwys staff o sefydliadau tir lleol
- cyfrannu syniadau ar gyfer deunydd aseiniadau/prosiectau'r uned
- arsylwi yn ystod profiad gwaith
- cefnogaeth fentora gan staff sefydliadau tir lleol.

 © Pearson Education Limited 2021

# Uned 5: Sgiliau Ystâd

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i reoli a chynnal cynefinoedd, strwythurau, arwynebau, terfynau a gwasanaethau a geir yn y sector tir.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae rheoli amgylchedd ffisegol y sectorau tir yn golygu bod angen i chi allu cynnal a chadw, atgyweirio a gosod amrywiaeth o strwythurau, arwynebau, terfynau a gwasanaethau gwahanol, ynghyd â chynnal cynefinoedd, gan sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithlon ac yn ddiogel.

Yn yr uned hon byddwch yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i reoli gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a gosod ffabrig busnesau a sefydliadau sy'n gweithio yn y sectorau tir. Mae'r rhain yn cynnwys coedwigaeth, garddwriaeth ac amaethyddiaeth ynghyd â rheoli cefn gwlad yn fwy cyffredinol. Byddwch yn dysgu sut i gynllunio, rhoi ar waith a myfyrio ar dasgau cynnal a chadw, gan gynnwys y rhai rydych yn eu cyflawni eich hun a'r gwaith a gaiff ei gwblhau gan eraill megis staff neu gontractwyr proffesiynol y byddwch yn rheoli eu gwaith. Yn yr uned hon, byddwch yn defnyddio'ch dysgu o'r rhaglen gyfan i gwblhau tasgau asesu.

Bydd yr uned hon yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i chi symud ymlaen i gyflogaeth fel gweithiwr fferm neu weithiwr coedwigaeth dan hyfforddiant, cynorthwy-ydd canolfan arddio neu fel rhan o dîm rheoli ystâd. Mae hefyd yn gyflwyniad rhagorol i radd mewn rheoli ystâd.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Archwilio sgiliau ystâd ar gyfer rheoli a chynnal a chadw cynefinoedd ac amgylcheddau

**B** Cyflawni sgiliau ystâd a'u rheoli ar gyfer y sector tir

**C** Goruchwylio eraill sy'n ymwneud â thasgau cynnal a chadw, atgyweirio a gosod yn y sector tir.

 © Pearson Education Limited 2021 

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio sgiliau ystâd ar gyfer rheoli a chynnal a chadw cynefinoedd ac amgylcheddau | **A1** Natur a chwmpas sgiliau ystâd ar gyfer rheoli sector tir<br>**A2** Asesu anghenion<br>**A3** Tasgau cynllunio | Portffolio o dystiolaeth sy'n cynllunio ar gyfer prosiectau rheoli ystâd. Dylai'r portffolio gynnwys:<br>• arolygon<br>• deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol<br>• cynllun, gan gynnwys amserlenni a manylebau. |
| **B** Cyflawni sgiliau ystâd a'u rheoli ar gyfer y sector tir | **B1** Gweithio'n ddiogel<br>**B2** Tasgau ystâd ymarferol<br>**B3** Myfyrio ar dasgau a gyflawnwyd | Tystiolaeth o dasgau a gyflawnwyd a myfyrio ar ganlyniadau'r tasgau, gan gynnwys:<br>• llyfrau cofnod, cofnodion arsylwi a datganiadau tystion am dasgau a gyflawnwyd<br>• adolygu canlyniadau tasgau. |
| **C** Goruchwylio eraill sy'n ymwneud â thasgau cynnal a chadw, atgyweirio a gosod yn y sector tir | **C1** Goruchwylio'r gweithlu<br>**C2** Goruchwylio sgiliau ystâd a gyflawnir<br>**C3** Gwerthuso tasgau sgiliau ystâd a gwblhawyd | Tystiolaeth o oruchwylio eraill wrth gyflawni tasgau, gan gynnwys:<br>• fframwaith gwerthuso sy'n cynnwys canlyniadau tasgau a goruchwylio gweithlu<br>• cofnodion arsylwi a datganiadau tystion sy'n arddangos goruchwylio a rheoli tasgau a amserlennwyd<br>• adolygu canlyniadau tasgau a gyflawnwyd gan eraill<br>• adolygu eu gwaith eu hunain yn goruchwylio gweithlu. |

 © Pearson Education Limited 2021

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Archwilio sgiliau ystâd ar gyfer rheoli a chynnal a chadw cynefinoedd ac amgylcheddau

### A1 Natur a chwmpas sgiliau ystâd ar gyfer rheoli sector tir

Deall ffurf a swyddogaeth elfennau sgiliau ystâd a geir yn y sector tir.

- Terfynau, gan gynnwys:
  - ffensys ceirw neu gwningod, ffensys trydan, ffensys stoc, a ffensys pyst a rheiliau
  - ffensio addurniadol.
- Arwynebau, gan gynnwys:
  - llwybrau, traciau, rhedfeydd, lloriau llety, arwynebau glaswellt
  - draeniad arwynebau, gan gynnwys draeniau caeau.
- Strwythurau sy'n darparu ar gyfer rheoli tir, gan gynnwys:
  - strwythurau tir, e.e. llochesi caeau, camfeydd a nodwyr llwybr, tai gwydr, fframiau oer, gwelyau uchel
  - gatiau a chafnau dŵr
  - strwythurau mewnol, e.e. yfwyr, celfi côr a phorthwyr
  - gorffeniadau, gan gynnwys paent, farnais a chadwolion.
- Cynnal a chadw cynefinoedd ar gyfer rheoli tir, gan gynnwys:
  - rheoli chwyn a phlanhigion ymwthiol, clirio prysg, torri/haenu gwrychoedd
  - llochesi bywyd gwyllt, e.e. blychau nythu/oedi, sypiau pren, twneli draenogod.
- Cyflenwi, dosbarthu neu storio prif wasanaethau a chyfleustodau, gan gynnwys:
  - dŵr a nwy, gan gynnwys nwy potel, trydan, tanwydd, olew
  - carthffosiaeth, gan gynnwys prif bibell, carthbwll a thanc carthion
- Deunyddiau, offer a dulliau adeiladu a ddefnyddir ar gyfer tasgau sgiliau ystâd:
  - deunyddiau adeiladu sylfaenol, e.e. pren, concrit, sglodion pren, tarmac, agregau math 1, ffensiau, dalenni galfanedig, pibellau polypropylen
  - offer arbenigol cyffredin a chyfarpar profi sylfaenol, e.e. profwr cylched
  - gosodion a ffitiadau, e.e. colfachau, cloeon, pêl-falfiau, cysylltyddion peipiau
  - dethol, cludo, cynnal a chadw a storio offer, deunyddiau a chyfarpar.

### A2 Asesu anghenion

Archwilio terfynau, arwynebau, strwythurau, gwasanaethau a chynefinoedd.

- Archwilio terfynau, arwynebau, cynefinoedd a strwythurau o safbwynt cynnal a chadw, atgyweirio, adeiladu ac anghenion gosod.
- Archwilio a chanfod gwallau sylfaenol mewn cylchedau a dyfeisiau trydan, gan ddefnyddio cyfarpar profi heb gyswllt.
- Archwilio draeniad, gwasanaethau dŵr a nwy am ollyngiadau a rhwystrau.
- Dulliau a phrosesau ar gyfer adrodd am ganfyddiadau archwiliad, gan gynnwys yn llafar ac yn ysgrifenedig, defnyddio mapiau, cynlluniau a diagramau priodol.

### A3 Tasgau cynllunio

Cymhwyso rheoliadau a'r rheoliadau a'r nodiadau arweiniad penodol a chyfredol sy'n berthnasol i sgiliau ystâd ar gyfer rheoli tir, gan gynnwys iechyd a diogelwch yn y gwaith a'r rhai sy'n ymwneud â lles anifeiliaid.

- Codau ymarfer lles y llywodraeth ar gyfer anifeiliaid a phlanhigion penodol.
- Defnydd o asesiadau risg, eu diben a'u mathau, gan gynnwys rhai statig, dynamig, ansoddol a meintiol.
- Dethol a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir.
- Asesu'r dasg, gan gynnwys mesur, amcangyfrif, defnyddio mapiau, diagramau a chynlluniau.
- Creu a defnyddio amserlenni tasgau.

- Manylebau swydd, yn cynnwys swydd ddisgrifiad a rhesymeg, amserlenni, offer, cyfarpar, deunyddiau, lleoliad gwaith, costau, setiau sgiliau, ystyriaethau iechyd a diogelwch, materion amgylcheddol a threfniadau goruchwylio.
- Canfod offer, cyfarpar, deunyddiau, setiau sgiliau, e.e. gweithlu mewnol, contractwyr allanol.
- Prosesau a chymhorthion cynllunio tasgau, gan gynnwys cyllidebau, amserlenni a siartiau llif.
- Y defnydd o TG wrth godi a monitro tasgau atgyweirio a chynnal a chadw.
- Cyfathrebu â chontractwyr a gweithwyr i sicrhau cynllunio effeithlon.

## Nod dysgu B: Cyflawni sgiliau ystâd a'u rheoli ar gyfer y sector tir

### B1 Gweithio'n ddiogel

- Cydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau iechyd a diogelwch priodol, e.e. cyfarpar diogelu personol (PPE), lles anifeiliaid.
- Dethol yr offer, y cyfarpar a'r deunyddiau cywir.
- Cludo offer, cyfarpar a deunyddiau.
- Paratoi'r ardal waith.
- Defnyddio offer a chyfarpar yn gywir ac yn ddiogel.
- Gwaredu gwastraff yn unol â rheoliadau.
- Cynnal a chadw a storio offer, cyfarpar a deunyddiau.

### B2 Tasgau ystâd ymarferol

Cynnal a chadw, atgyweirio, adeiladu a gosod:

- terfynau, gan gynnwys ffensys pyst a rheiliau, gwrychoedd, ffensys trydan a ffensys straen, e.e. ffensys stoc neu gadwyn
- arwynebau, gan gynnwys agregau neu goncrit, sglodion pren, pren, tywod neu gynnyrch artiffisial, e.e. sglodion pren neu lwybrau glaswellt, ffyrdd mynediad coedwigoedd, palmant addurniadol
- strwythurau, e.e. tai gwydr, llochesi caeau, gatiau, corau, cafnau, porthwyr, camfeydd, arwyddion
- draeniad, e.e. dadflocio draeniau neu ddraeniau cae, clirio ffos agored
- ynysu prif wasanaethau os bydd gollyngiad neu ar gyfer tasgau cynnal a chadw, atgyweirio, adeiladu a gosod.
- atgyweirio peiriannau neu gylchedau trydanol sylfaenol, e.e. newid plwg neu ffiws, ailosod cylched
- defnyddio cyfarpar sylfaenol i ganfod gwasanaethau o dan y tir neu sy'n guddiedig
- gosod cyflenwad trydan dros dro ar gyfer gofynion pŵer dan do ac awyr agored, e.e. ceblau ymestyn, batrïau ffens drydan, generaduron bychan
- atgyweirio, cynnal a chadw neu osod systemau i gyflenwi dŵr, e.e. i gafn dŵr, system ddyfrhau neu i fedru cysylltu tap a pheipen â system sy'n bodoli.
- cynefinoedd, e.e. clirio prysg, torri gwrychoedd, adeiladu llochesi bywyd gwyllt.

### B3 Myfyrio ar dasgau a gyflawnwyd

Proses ar gyfer adolygu'r tasgau a gyflawnwyd i asesu'r effaith ar reoli tir, gan gynnwys:

- cydweddu sgiliau â thasgau
- ystyried problemau sy'n codi a defnyddio technegau datrys problemau
- cymharu'r amser a gymerir â'r amser a roddir a'r amser angenrheidiol
- canfod arferion gweithio aneffeithiol
- monitro'r costau gwirioneddol yn erbyn amcangyfrifon a chanfod gor-rediad costau
- archwilio manylebau i wella eglurder a dileu amwysedd
- monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau, canllawiau a nodiadau cynghori
- asesu cyfathrebiadau i nodi gwelliannau.

 © Pearson Education Limited 2021

## Nod dysgu C: Goruchwylio eraill sy’n ymwneud â thasgau cynnal a chadw, atgyweirio a gosod yn y sector tir

### C1 Goruchwylio’r gweithlu

- Nodi setiau o sgiliau, e.e. gweithlu mewnol, contractwyr allanol.
- Cyfathrebu anghenion cynnal a chadw, atgyweirio, adeiladu a gosod i dimau mewnol a chontractwyr allanol, gan gynnwys codi archebion, rhoi cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig, ceisio amcangyfrifon a dyfynbrisiau, comisiynu contractwyr a deall contractau.
- Defnyddio sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig:
  - defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg cywir
  - mabwysiadu gwahanol arddulliau, gan gynnwys rhai ffurfiol ac anffurfiol.
- Defnyddio sgiliau cyfathrebu llafar:
  - defnyddio tôn, goslef ac arddull wrth siarad
  - defnyddio cymhorthion, e.e. mapiau a chynlluniau.

### C2 Goruchwylio sgiliau ystâd a gyflawnir

- Sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn unol â’r disgwyliadau, e.e. ymweliadau safle, datrys problemau a gwerthuso cynnydd tasgau sgiliau ystâd, sicrhau cydymffurfiad â manylebau, gwirio cynnydd gwaith yn erbyn y fanyleb, rheoliadau a chodau ymarfer ac asesiadau risg.
- Defnyddio sgiliau datrys problemau i asesu materion, archwilio datrysiadau amgen, penderfynu ar gamau gweithredu, rhoi datrysiadau ar waith a monitro deilliannau.

### C3 Gwerthuso tasgau sgiliau ystâd a gwblhawyd

Defnyddio fframweithiau gwerthuso i alluogi asesu tasgau a gwblhawyd a rheoli gweithlu.

- Creu fframweithiau gwerthuso gan ddefnyddio manylion y fanyleb wreiddiol fel rhestr wirio.
- Gwerthuso cynnyrch a gwblhawyd, gan gynnwys cydymffurfiad â manylebau, rheoliadau, a chodau ymarfer ac asesiadau risg.
- Cyfathrebu deilliannau gwerthuso, gan sicrhau y cwblheir tasgau yn gywir, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd lle ceir anghytundeb.
- Creu fframweithiau gwerthuso ar gyfer asesu rheoli gweithlu, gan gynnwys:
  - dethol gweithlu
  - cyfathrebu’r dasg
  - goruchwylio gwaith sy’n mynd rhagddo
  - cymhwyso sgiliau datrys problemau
  - rhoi adborth ar ddeilliannau tasg.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Archwilio sgiliau ystâd ar gyfer rheoli a chynnal a chadw cynefinoedd ac amgylcheddau** | | **A.Rh1** Gwerthuso effaith debygol amserlen a gynhyrchwyd ar gyfer rheoli tasgau sgiliau ystâd sy'n deillio o'u harolygon eu hunain a gyflawnwyd. |
| **A.Ll1** Esbonio canfyddiadau eu harolygon eu hunain a gyflawnwyd i ganfod beth yw'r anghenion sgiliau ystâd.<br>**A.Ll2** Dewis gwybodaeth o ganfyddiadau eu harolygon eu hunain a gyflawnwyd i gynllunio ar gyfer rheoli tasg sgiliau ystâd. | **A.T1** Dadansoddi canlyniadau eu harolygon eu hunain a gyflawnwyd i gynhyrchu amserlen ar gyfer rheoli tasgau sgiliau ystâd. | |
| **Nod dysgu B: Cyflawni sgiliau ystâd a'u rheoli ar gyfer y sector tir** | | **B.Rh2** Gwerthuso safon eu tasgau sgiliau ystâd eu hunain a gyflawnwyd yng nghyd-destun manylebau swydd. |
| **B.Ll3** Cyflawni tasgau sgiliau ystâd syml yn ôl manyleb y cytunwyd arni.<br>**B.Ll4** Esbonio sut mae eu tasgau sgiliau ystâd eu hunain a gyflawnwyd yn bodloni manylebau swydd. | **B.T2** Cyflawni tasgau sgiliau ystâd cymhleth yn ôl manyleb y cytunwyd arni ac o fewn amserlen y cytunwyd arni.<br>**B.T3** Asesu eu perfformiad eu hunain wrth gyflawni tasgau sgiliau ystâd er mwyn bodloni manylebau swydd. | |
| **Nod dysgu C: Goruchwylio eraill sy'n ymwneud â thasgau cynnal a chadw, atgyweirio a gosod yn y sector tir** | | **C.Rh3** Gwerthuso effeithiolrwydd eu goruchwyliaeth eu hunain ar weithlu wrth gyflawni tasg sgiliau ystâd gymhleth, gan roi manylion gwelliannau. |
| **C.Ll5** Arddangos rheoli a goruchwylio tasg sgiliau ystâd syml.<br>**C.Ll6** Esbonio effeithiolrwydd eu goruchwyliaeth eu hunain ar weithlu wrth gyflawni tasg sgiliau ystâd. | **C.T4** Arddangos rheoli a goruchwylio tasg sgiliau ystâd gymhleth.<br>**C.T5** Dadansoddi effeithiolrwydd eu goruchwyliaeth eu hunain ar weithlu wrth gyflawni tasg sgiliau ystâd, gan nodi meysydd i'w gwella. | |

 © Pearson Education Limited 2021

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o dri aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.Rh1)

Nod dysgu: B (B.Ll3, B.Ll4, B.T2, B.T3, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T4, C.T5, C.Rh3)

 © Pearson Education Limited 2021

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, rhaid i'r dysgwyr gael mynediad i:

- amrywiaeth o offer llaw cyffredin ac arbenigol, gan gynnwys offer pŵer a chyfarpar profi
- cyfarpar diogelu personol (PPE) addas
- amrywiaeth eang o dasgau sgiliau ystâd addas, gan gynnwys darparu prif wasanaethau a gwasanaethau dros dro.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nod dysgu A

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cynnal arolygon o sefydliadau tir. Byddant yn defnyddio amrediad o gyfarpar profi priodol yn annibynnol ac yn hyfedr. Byddant yn deall yn hawdd faterion sgiliau ystâd cymhleth, gan ystyried achosion a chreu cysylltiadau rhwng eu defnyddio a chanlyniadau peidio â delio â nhw, gan archwilio'r sefyllfa'n drwyadl. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno canfyddiadau manwl gywir ar ffurf mapiau anodedig, cynlluniau, diagramau a nodiadau atodol. Byddant yn gadarn wrth asesu materion ac wrth lunio penderfyniadau ynghylch atgyweirio, cynnal a chadw neu anghenion gosod.

Bydd y dysgwyr yn llunio cynlluniau cynhwysfawr a hyblyg, gan ailflaenoriaethu tasgau lle y bo'n briodol er mwyn defnyddio amser ac adnoddau'n effeithlon. Bydd y cynlluniau'n cynnwys arfarniad manwl o'r gwaith sy'n ofynnol gan ystyried yn drwyadl amserlen amser benodol y gwaith. Bydd y dysgwyr yn rhoi rhesymeg glir ar gyfer eu holl argymhellion, gan arddangos ymwybyddiaeth fanwl o ddylanwad deddfwriaeth lywodraethu a chodau ymarfer perthnasol, a'r effaith ar y sefydliad os bydd y gwaith yn cael ei oedi neu heb ei gwblhau. Bydd y manylebau swydd a gynhyrchir yn gynhwysfawr. Bydd y dysgwyr yn dangos eu bod wedi ystyried sut bydd eu cynlluniau'n effeithiol o ran, er enghraifft, defnyddio adnoddau, cwblhau tasgau, bodloni anghenion a nodwyd.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cynnal arolygon o sefydliadau tir. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o gyfarpar profi priodol yn ddiogel a heb oruchwyliaeth. Byddant yn holi beth yw achosion materion, gan awgrymu camau adferol a, lle y bo'n briodol, atal o ran anghenion atgyweirio, cynnal a chadw neu osod. Byddant yn archwilio cymhlethdod y gwallau a'r materion, gan ystyried ffactorau llai amlwg. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno canfyddiadau manwl ar ffurf mapiau anodedig, cynlluniau, diagramau a nodiadau atodol.

Bydd y dysgwyr yn cynllunio'n rhagweithiol gydag amserlenni clir ar gyfer anghenion atgyweirio, cynnal a chadw a gosod. Bydd eu cynlluniau'n arddangos yn glir ddealltwriaeth o'r angen am flaenoriaethu gwaith, a gwerthfawrogiad o amserlenni ac adnoddau realistig. Bydd eu cynllunio'n arddangos asesiad manwl o'r gwaith sy'n ofynnol ac amserlen amser benodol ar gyfer y gwaith. Rhoddir ystyriaeth i ddeddfwriaeth lywodraethu a chodau ymarfer perthnasol. Bydd y manylebau swydd a gynhyrchir yn eglur ac yn fanwl.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cynnal arolygon o sefydliadau tir. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o gyfarpar profi priodol, o dan oruchwyliaeth lle bo angen. Bydd y dysgwyr yn deall y prif faterion ac yn nodi'n gywir ddulliau atgyweirio, cynnal a chadw neu osod. Byddant yn cofnodi canfyddiadau cywir sy'n briodol i bob sefyllfa a arolygwyd, gan gyflwyno'r wybodaeth ar ffurf mapiau anodedig, cynlluniau, diagramau a nodiadau atodol. Bydd y nodiadau a'r anodiadau'n rhoi rhesymeg glir ar gyfer eu canfyddiadau.

Bydd cynlluniau'r dysgwyr yn trafod anghenion atgyweirio, cynnal a chadw a gosod allweddol, gan flaenoriaethu gwaith yn gywir drwy ddefnyddio terfynau amser eang. Lle y bo'n briodol, bydd eu cynlluniau'n ystyried deddfwriaeth lywodraethu a chodau ymarfer perthnasol. Bydd y manylebau swydd a gynhyrchir yn cynnwys gwybodaeth allweddol.

 © Pearson Education Limited 2021

## Nod dysgu B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau cymhleth sy'n galw am nifer o gamau gweithredu, gan ddefnyddio cyfarpar priodol ac amrywiaeth o offer a deunyddiau. Cyflawnir y tasgau'n effeithlon, yn gywir ac yn llwyr, gan fodloni'r fanyleb. Bydd y dysgwyr yn gweithio at safon ddiwydiannol broffesiynol a byddant yn cydymffurfio ag arfer gorau'r gweithle.

Bydd y dysgwyr yn adolygu safon ansoddol y gwaith ymarferol a gyflawnwyd i wella cwblhau tasgau, gan gefnogi eu barn â dyfarniadau rhesymedig.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau cymhleth sy'n galw am nifer o gamau gweithredu, gan ddefnyddio cyfarpar priodol ac amrywiaeth o offer a deunyddiau. Cyflawnir y tasgau'n effeithlon, yn gywir ac yn llwyr, gan fodloni'r fanyleb. Bydd y dysgwyr yn gweithio at safon gweithiwr cymwys. Byddant yn cyflawni tasgau cymhleth sy'n galw am osod, cynnal a chadw neu atgyweirio terfynau, arwynebau, cynefinoedd a naill ai prif wasanaethau neu wasanaethau dros dro.

Bydd y dysgwyr yn arddangos arfer gorau'r gweithle trwy weithio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan sicrhau bod y gweithle wedi'i baratoi ac yn glir. Byddant yn deall yr angen am weithdrefnau offer, deunyddiau a chyfarpar cywir, ac yn eu harddangos, gan gynnwys dethol, cludo, cynnal a chadw a storio.

Bydd y dysgwyr yn adolygu eu gwaith gan gofio manyleb y swydd a'r safon a gyflawnwyd, gan roi awgrymiadau dilys ar gyfer gwelliannau o fewn y tasgau.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau sgiliau ystâd syml, sy'n galw am nifer bach o weithrediadau ac amrediad cyfyngedig o offer a deunyddiau. Cyflawnir y tasgau'n effeithlon, yn gywir ac yn llwyr, gan fodloni'r fanyleb. Byddant yn gweithio at safon gweithiwr newydd. Bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau syml sy'n galw am osod, cynnal a chadw neu atgyweirio terfynau, arwynebau, cynefinoedd a naill ai prif wasanaethau neu wasanaethau dros dro.

Bydd y dysgwyr yn arddangos arfer derbyniol y gweithle trwy weithio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan sicrhau bod y gweithle'n cael ei glirio ar ôl cwblhau'r dasg. Byddant yn arddangos gweithdrefnau offer, deunyddiau a chyfarpar cywir, gan gynnwys dethol, cludo, cynnal a chadw a storio.

Bydd y dysgwyr yn adolygu eu gwaith gan gofio manyleb y swydd.

## Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn goruchwylio'r gweithlu'n effeithiol ac yn gynhwysfawr gan arddangos cyfathrebu clir, cryno, diamwys, llafar ac ysgrifenedig sy'n addas i'r derbynnydd, megis contractwyr neu gydweithwyr.

Bydd y dysgwyr yn dirprwyo cyfrifoldebau'n briodol yn ôl eu setiau sgiliau a'u hadnoddau. Byddant yn monitro ac yn asesu dilyniant tasgau, gan roi cyngor yn ôl yr angen yn unig, gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau cadarnhaol a hyblyg yn ôl yr angen. Byddant yn asesu'r dasg a gwblhawyd yn erbyn y fanyleb ac yn cyfathrebu eu canfyddiadau'n gryno ac yn gadarn.

Bydd y dysgwyr yn llunio fframwaith gwerthuso dilys a dibynadwy i'w ddefnyddio wrth asesu sut aethant ati i reoli tasgau a gwblhawyd. Byddant yn nodi meysydd penodol lle gallai eu rheolaeth ar y dasg fod wedi gwella effeithlonrwydd, diogelwch neu gost-effeithlonedd, ac yn cynnig argymhellion dilys a fyddai'n cyflawni hyn.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn arddangos eu bod yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn briodol gyda gweithlu, megis contractwyr neu gydweithwyr, ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Bydd y dysgwyr yn dirprwyo cyfrifoldebau. Byddant yn asesu'n gywir gynnydd tasg gymhleth ac yn arddangos sgiliau datrys problemau pan fo angen. Byddant yn cyfathrebu'n briodol eu hasesiad o gynnydd tasg.

Bydd y dysgwyr yn llunio fframwaith gwerthuso cywir i'w ddefnyddio wrth asesu rheoli gweithlu. Byddant yn argymell gwelliannau i'w perfformiad eu hunain.

 © Pearson Education Limited 2021 

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn arddangos eu bod yn gallu rhoi cyfarwyddiadau syml i'r gweithlu ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Bydd y dysgwyr yn goruchwylio tasgau, gan gynnwys gwirio cynnydd a nodi materion amlwg a all atal cwblhau tasg yn ôl y fanyleb. Lle ceir problemau, bydd y dysgwyr yn cynnig awgrymiadau a gallant ymyrryd yn uniongyrchol. Bydd y dysgwyr yn darparu adborth sylfaenol i'r gweithlu ar gynnydd y dasg.

Bydd y dysgwyr yn llunio fframwaith gwerthuso syml i'w ddefnyddio wrth asesu eu rheolaeth ar y gweithlu, gan nodi eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu ag *Uned 4: Profiad Gwaith yn y Sectorau Tir*.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- dosbarthiadau meistr
- gweithdai technegol yn cynnwys staff o sefydliadau tir lleol
- cyfrannu syniadau ar gyfer deunydd aseiniadau/prosiectau'r uned
- arsylwi yn ystod profiad gwaith
- cefnogaeth fentora gan staff sefydliadau tir lleol.

 © Pearson Education Limited 2021

# Uned 8: Gweithrediadau Peiriannau Tir

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau gweithredu peiriannau a ddefnyddir yn y sectorau tir yn ddiogel, gan gynnwys cyflawni gwiriadau cyn-cychwyn, cynnal a chadw ac atgyweirio elfennol a gweithredu go iawn.

## Cyflwyniad i'r uned

Defnyddir peiriannau ar draws y sectorau tir at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys peiriannau cludo a phweru neu i dynnu cyfarpar arall. Mae dethol y peirianwaith, ei gynnal a'i gadw a'i ddefnyddio'n gywir yn hynod o bwysig i lwyddiant pob menter ac arferion gweithio diogel.

Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio peiriannau perthnasol i'ch sector penodol yn y diwydiant, yn datblygu sgiliau ymarferol a dealltwriaeth o'r amodau gwahanol lle mae'n bosib byddai angen gweithredu peirianwaith. Byddwch yn dysgu sut i gyflawni gwiriadau cyn-cychwyn a gwaith cynnal a chadw ar y peiriannau hyn ynghyd â defnyddio a gweithredu'r peiriant yn ddiogel ar gyfer amrywiaeth o dasgau. Bydd y sgiliau a'r wybodaeth a geir yn yr uned hon yn eich helpu i reoli'r peryglon posib sy'n ymwneud â gweithredu peiriannau tir, ac yn eich galluogi i gyflawni tasgau mewn modd sy'n blaenoriaethu diogelwch ac sy'n ystyried yr effaith amgylcheddol.

Bydd yr uned hon yn cefnogi eich dilyniant i gyflogaeth yn y sectorau tir mewn rôl megis cynorthwy-ydd gweithrediadau peiriannau a thechnegydd cynorthwyol, neu i astudio ymhellach ar ffurf prentisiaeth neu addysg uwch.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Ymchwilio i fathau o beiriannau tir, eu diben a'u gweithrediad diogel

**B** Gweithredu peiriannau tir yn ddiogel i gwblhau tasg ymarferol

**C** Cynnal a chadw peiriannau tir yn ddiogel er mwyn cynnal eu heffeithiolrwydd.

## Crynodeb o'r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Ymchwilio i fathau o beiriannau tir, eu diben a'u gweithrediad diogel | **A1** Mathau o beiriannau a'u diben<br>**A2** Egwyddorion gweithredu<br>**A3** Ystod o amodau lle gellir gweithredu peiriannau<br>**A4** Ystyriaethau iechyd a diogelwch | Adroddiad yn archwilio mathau o beiriannau, eu defnyddiau a'u gweithrediad ar gyfer sector perthnasol yn y diwydiannau tir. |
| **B** Gweithredu peiriannau tir yn ddiogel i gwblhau tasg ymarferol | **B1** Paratoi<br>**B2** Gweithrediad | Tystiolaeth o gwblhau tasgau ymarferol yn ddiogel, gan gynnwys paratoi a gweithredu peiriant addas i gyflawni'r dasg dan sylw. |
| **C** Cynnal a chadw peiriannau tir yn ddiogel er mwyn cynnal eu heffeithiolrwydd | **C1** Cynnal a chadw<br>**C2** Gwasanaethu ac atgyweirio | Tystiolaeth o beiriant yn cael ei wirio cyn ei ddefnyddio ac wedyn, a nodi'r gofynion cynnal a chadw.<br>Adroddiad yn gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith paratoi, cynnal a chadw arferol ac atgyweirio a gyflawnwyd, a'r opsiynau sydd ar gael i wneud hyn. |

 © Pearson Education Limited 2021

# Cynnwys

## Nod dysgu A: Ymchwilio i fathau o beiriannau tir, eu diben a'u gweithrediad diogel

### A1 Mathau o beiriannau a'u diben

Y mathau o beiriannau sydd ar gael a'r dibenion y defnyddir hwy ar eu cyfer yn y sector tir.

- Mathau o beiriant:
  - tractorau, gan gynnwys systemau gyriant dwy a phedair olwyn, gosodwyr traciau
  - cerbydau gwasanaethau
  - cerbydau pob tir (ATVs)
  - cerbydau diben arbennig, e.e. cynaeafwyr neu dorwyr gwair hunanyrru, trinwyr deunyddiau
  - peiriannau a weithredir gan gerddwyr a pheiriannau llaw.
- Addasiadau ar gyfer gwahanol ddibenion, gan gynnwys gweithio ar lethrau, y tu mewn i adeiladau ac ar dir meddal neu ansicr.
- Dibenion peiriannau:
  - cludo nwyddau a phobl
  - cynnal a chadw ystadau, e.e. torwyr prysgwydd, torwyr gwrychoedd, ffustiau
  - tynnu cyfarpar arall, e.e. trelars, torwyr gwair
  - pweru cyfarpar sydd ynghlwm trwy wasanaethau allanol, e.e. amaethwyr pweredig, torwyr gwair
  - cloddio, e.e. ffosydd, dyfrffosydd, tirweddu
  - cymhwyso deunyddiau., e.e. hadau, deunyddiau organig, gwrtaith a chynnyrch amddiffyn planhigion.

### A2 Egwyddorion gweithredu

- Ffynonellau pŵer sydd ar gael:
  - injans, gan gynnwys taniad gwreichion, cylchred dwy a phedair strôc, taniad cywasgu, pedair strôc a moduron trydan
  - mathau o danwydd, i gynnwys petrol, diesel, nwy petrolewm hylifedig (LPG), biodanwydd a thrydan, gan gynnwys cam sengl, tri cham a batri
  - effaith amgylcheddol bosib gwahanol fathau o injans.
- Systemau gyriant:
  - beltiau, cadwyni a blychau gêr:
    - eu nodweddion a'r defnydd ohonynt
    - manteision ac anfanteision
  - systemau hydrostatig:
    - eu nodweddion a'r defnydd ohonynt
    - manteision ac anfanteision
  - systemau gyriant dwy a phedair olwyn
  - olwynion gwahanol faint a'r un maint.
- Gosodiad, dyluniad a nodweddion diogelwch peiriant:
  - lleoliad rheolwyr peiriannau pweredig, e.e. switshys cynnau/diffodd, breciau, cydwyr, throtl/sbardun, liferi gêr, goleuadau a dangosyddion, dilyniannau gweithredu, mecanweithiau stopio brys
  - mynediad, gan gynnwys drysau, grisiau, gorchuddion amddiffynnol a gardiau
  - agweddau ar gynaliadwyedd perthnasol i ddyluniad a gosodiad peiriant, e.e. math o danwydd, effeithlonrwydd tanwydd, allyriadau, llygredd sŵn, ac iro.
- Cyfarpar ategol:
  - teclynnau clymu i atodi cyfarpar trelar, e.e. hitshys pic-yp, bariau llusgo clefis
  - cysylltiad tri phwynt i atodi cyfarpar wedi'i fowntio neu ei led-fowntio, e.e. erydr, torwyr gwair ac amaethwyr
  - gwasanaethau allanol, e.e. trydanol, cychwyniad pŵer (PTO), siafftiau, hydroleg.

- Nodweddion a gweithdrefnau diogelwch peiriannau:
  - gweithdrefnau gweithredu diogel, e.e. dechrau'r peiriant pan nad yw mewn gêr, dechrau'r peiriant gyda'r gweithredwr yn y safle gyrru
  - nodweddion diogelwch i atal cychwyn y peiriant, e.e. ddim pan mewn gêr, eistedd ar y sedd, gwasgu'r cydiwr
  - stopio'r injan, e.e. allwedd a thorri'r tanwydd
  - mynediad, i gynnwys grisiau a gardiau
  - nodweddion diogelwch eraill, e.e. gwrth am nôl i weithio llywiau cylchdro cerddwyr sy'n gweithio, cabiau neu fframiau diogelwch, gwregysau seddi.

**A3 Ystod o amodau lle gellir gweithredu peiriannau**

- Yn y maes neu ar y safle:
  - llethrau
  - maint a thopograffi'r cae/ardal waith
  - mathau o bridd a chyflwr y ddaear
  - mynediad.
- Y tywydd a thymoroldeb:
  - sychder, gwlybaniaeth, glaw, eira, amodau arferol
  - tasgau yn ymwneud â'r adeg o'r flwyddyn a'r tymhorau.

**A4 Ystyriaethau iechyd a diogelwch**

Agweddau iechyd a diogelwch perthnasol i'r defnydd o beiriannau mewn sectorau tir.

- Deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r defnydd o beiriannau tir:
  - rheoliadau yn ymwneud â chaniatâd a'r cymhwysedd i gyflawni gweithrediadau tir penodol, gan gynnwys:
    - cyfyngiadau oedran gofynnol gyrwyr
    - Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER) a Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER)
    - defnyddio peiriannau 'ar yr heol'
    - tystysgrifau cymhwysedd, e.e. chwistrellu, trin deunyddiau.
- Diogelu eich hunan ac eraill:
  - Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974
  - cyfarpar diogelu personol (PPE), e.e. esgidiau diogelwch, sbectolau diogelwch, oferôls, menig
  - systemau gweithio diogel, defnyddio llawlyfrau, defnyddio rheolwyr a 'thorwyr injan' yn ddiogel
  - asesiadau risg
  - technegau trin â llaw.
- Canlyniadau posib peidio â chydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, megis:
  - anafu eich hunan ac eraill
  - erlyniad
  - annilysu yswiriant
  - peiriannau aneffeithiol ac aneffeithlon.

## Nod dysgu B: Gweithredu peiriannau tir yn ddiogel i gwblhau tasg ymarferol

**B1 Paratoi**

Paratoi a gwirio peiriannau cyn eu defnyddio a'u gweithredu.

- Gwiriadau dyddiol, addasiadau, atodiadau, iro.
- Adnoddau, gan gynnwys deunyddiau traul:
  - ireidiau
  - deunyddiau glanhau, clytiau a thywelion
  - amrywiaeth o offer
  - meinciau neu ardal weithdy
- Defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

 © Pearson Education Limited 2021

- Gosod peiriant, e.e. safle, rheoli cymysg neu ddrafft, gosod gardiau, pennu uchder neu ddyfnder mwyaf, uchder neu ddyfnder gweithio.

**B2 Gweithrediad**

Gweithredu peiriannau perthnasol mewn cae neu ar leoliad safle.

- Gwiriadau cyn-cychwyn, i gynnwys olew, tanwydd, dŵr, ffitiadau ategol, teiars, gwiriadau gweledol, goleuadau – lle bo hynny'n berthnasol.
- Atodi cyfarpar, e.e. trelar, blwch cysylltu, torrwr gwair, taenydd neu gyfarpar amaethu.
- Defnydd mewn cae, i gynnwys cychwyn a stopio, dull gweithio, rheoli'r cyfarpar atodedig, cyflymder ymlaen.
- Gweithdrefnau gweithio diogel, e.e. gwybodaeth o'r llawlyfr gweithredwyr, mowntio a dadfowntio diogel o'r peiriant, stopio'r peiriant i wneud addasiadau a chynnal a chadw yn y cae.
- Agweddau ar gynaliadwyedd sy'n berthnasol i weithredu peiriannau, e.e. defnyddio modd arbed ynni, dethol y gêr cywir a chyflymder addas i'r injan.

## Nod dysgu C: Cynnal a chadw peiriannau tir yn ddiogel er mwyn cynnal eu heffeithiolrwydd

**C1 Cynnal a chadw**

Cyflawni gwaith cynnal a chadw arferol gweithredwr.

- Defnyddio llawlyfrau gweithredwyr.
- Deall cyfnodau gwasanaethu.
- Addasiadau i ddyfeisiau gyriant, e.e. cadwyni tensiwn neu feltiau.
- Gwirio gwasgedd teiars.
- Gwirio hylifau, e.e. lefelau tanwydd, oerydd ac olew, lefel electrolyt batri.
- Gwirio gardiau ar gyfer addasrwydd cyffredinol at y diben a diogeledd ffitiadau.
- Gwirio hidlyddion aer.

**C2 Gwasanaethu ac atgyweirio**

- Yr opsiynau sydd ar gael i wasanaethu ac atgyweirio:
  - gwasanaethau delwriaeth
  - gwasanaethu mewnol ac atgyweiriadau gan eu mecanydd eu hunain
  - atgyweiriadau mewn gweithdy nad yw'n ddelwriaeth.
- Manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau ar gyfer gwasanaethu ac atgyweirio, e.e. argaeledd, amser, gwarant a chost.
- Deall gwarantau, eu manteision a'u hanfanteision.
- Cost-effeithiolrwydd gwasanaethu ac atgyweirio, cynnal a chadw arferol a chyfnodau cynnal a chadw.
- Nodi diffygion a phroblemau sy'n galw am wasanaethu ac atgyweirio:
  - traul a gwisgo, e.e. traul ar drawsyriant a chydrannau llywio, teiars, llafnau torri, dannedd, cyllyll, plygiau tanio, chwistrellwyr, hidlyddion wedi'u hatal
  - defnyddio rhifau rhannau gweithgynhyrchwyr a chyfeirnodau peiriannau
  - materion iechyd a diogelwch, gan gynnwys gardiau sy'n rhydd, wedi treulio neu ar goll.
- Cyflawni gwaith gwasanaethu ac atgyweirio syml:
  - defnyddio llawlyfr gweithredwyr
  - adnewyddu olewon
  - glanhau neu adnewyddu hidlyddion
  - addasiadau, e.e. tyniant, gwasgedd
  - cynnal a diweddaru cofnodion gwaith
  - atgyweiriadau perthnasol, e.e. amnewid beltiau, dannedd, llafnau, amnewid batri, amnewid plwg tanio neu chwistrellydd, amnewid gard
  - ailgylchu neu waredu deunyddiau gwastraff a rhannau yn unol ag arfer a dderbynnir, e.e. ailgylchu olew gwastraff, ailgylchu teiars, defnyddio rhannau cyfnewid a dychwelyd.

## Meini prawf asesu

| Llwyddo | Teilyngdod | Rhagoriaeth |
|---|---|---|
| **Nod dysgu A: Ymchwilio i fathau o beiriannau tir, eu diben a'u gweithrediad diogel** | | |
| **A.Ll1** Esbonio diben a gweithrediad gwahanol fathau o beiriannau tir.<br>**A.Ll2** Esbonio'r gofynion iechyd a diogelwch wrth weithredu peiriannau tir. | **A.T1** Cymharu egwyddorion gweithredu gwahanol fathau o beiriannau tir a ddetholwyd.<br>**A.T2** Dadansoddi pwysigrwydd gofynion iechyd a diogelwch wrth weithredu peiriannau tir. | **A.Rh1** Cyfiawnhau dethol gwahanol fathau o beiriannau tir ar gyfer tasg tir benodol. |
| **Nod dysgu B: Gweithredu peiriannau tir yn ddiogel i gwblhau tasg ymarferol** | | |
| **B.Ll3** Paratoi peiriannau tir penodol yn ddiogel ar gyfer gwaith.<br>**B.Ll4** Gweithredu peiriannau tir syml yn ddiogel i fodloni amcanion penodol. | **B.T3** Defnyddio peiriannau tir cymhleth yn effeithlon i fodloni amcanion penodol. | **B.Rh2** Gwerthuso eu gweithrediad eu hunain o beiriannau tir yn erbyn yr amcanion a roddwyd. |
| **Nod dysgu C: Cynnal a chadw peiriannau tir yn ddiogel er mwyn cynnal eu heffeithiolrwydd** | | |
| **C.Ll5** Esbonio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethu ac atgyweirio peiriannau tir.<br>**C.Ll6** Cyflawni gwaith cynnal a chadw arferol gweithredwr ac atgyweiriadau priodol yn ddiogel ar beiriant tir penodol. | **C.T4** Asesu diffygion posib ar beiriant tir penodol, gan ddefnyddio data'r gweithgynhyrchydd i nodi eitemau amnewid wrth wasanaethu ac atgyweirio.<br>**C.Ll5** Cyflawni gwaith cynnal a chadw arferol gweithredwr ac atgyweiriadau priodol yn effeithlon ar beiriant tir penodol. | **C.Rh3** Gwerthuso effeithiolrwydd technegau a ddefnyddir i gyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arferol, a'r opsiynau sydd ar gael i wneud hyn. |

 © Pearson Education Limited 2021

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o dri aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.T2, A.Rh1)

Nod dysgu: B (B.Ll3, B.Ll4, B.T3, B.Rh2)

Nod dysgu: C (C.Ll5, C.Ll6, C.T4, C.T5, C.Rh3)

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, rhaid i’r dysgwyr gael mynediad i:

- amrywiaeth o offer llaw cyffredin ac arbenigol, gan gynnwys offer pŵer a chyfarpar profi
- cyfarpar diogelu personol (PPE) addas
- ystod o brif symudwyr, gan gynnwys tractorau a thorwyr gwair gyrru a thrawsgludwyr
- ystod o atodiadau cydnaws, gan gynnwys trelars a chyfarpar sy’n cael ei fowntio â chysylltiadau tri phwynt
- safle gwastad a lefel i weithredu arno
- cyfleusterau gweithdy sylfaenol, yn cynnwys feisiau, meinciau, mathau o danwydd ac ireidiau.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nod dysgu A

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn archwilio’n drylwyr y peiriannau sydd ar gael i sector perthnasol yn y diwydiant tir, ac yn cyfiawnhau’n llawn ddethol dau fath gwahanol o beiriant ar gyfer tasgau penodol mewn modd sy’n rhesymegol, yn gydlynol ac yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Bydd y dasg yn galw am ddethol rhyw fath o brif symudydd a yrrir megis tractor, cerbyd cludo neu beiriant a yrrir megis torrwr gwair. Bydd y dystiolaeth yn arddangos defnydd cywir o derminoleg berthnasol drwyddi draw i gefnogi ymateb rhesymedig ac ystyriol. Bydd y dysgwyr yn cyfeirio’n graff at rôl iechyd a diogelwch wrth ddethol gwahanol fathau o beiriannau. Bydd y dysgwyr yn archwilio’n fanwl y problemau sy’n gysylltiedig ag amodau defnydd gwahanol, yn llunio datrysiadau cadarn, sy’n argyhoeddi i’r problemau hyn ac yn gwneud cyfeiriadau cynhwysfawr a chywir at agweddau perthnasol ar iechyd a diogelwch a chynaliadwyedd.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn darparu adolygiad cytbwys o egwyddorion gweithredu peiriannau tir ac yn adrodd am egwyddorion gweithredu dau beiriant gwahanol ar gyfer tasgau penodol yn y sector tir. Bydd y dasg yn galw am ddethol rhyw fath o brif symudydd a yrrir megis tractor, cerbyd cludo neu beiriant a yrrir megis torrwr gwair. Bydd y dystiolaeth a ddarperir yn dechnegol gywir ac yn cymharu’n glir egwyddorion gweithredu’r ddau beiriant. Bydd y datrysiadau a roddir gan y dysgwyr yn effeithlon ac yn addas. Rhoddir ystyriaeth glir a pherthnasol i agweddau ar iechyd a diogelwch a chynaliadwyedd. Bydd tystiolaeth y dysgwyr yn dangos dadansoddiad perthnasol a chywir o bob peiriant ac yn defnyddio iaith dechnegol yn briodol. Bydd y dysgwyr yn archwilio’r problemau a achosir gan amodau gwahanol ac yn cyfiawnhau eu datrysiadau dylunio mewn modd perthnasol. Bydd y dysgwyr yn darparu dadansoddiad cytbwys a chlir o bwysigrwydd gofynion iechyd a diogelwch wrth weithredu peiriant.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn archwilio’r peiriannau sydd ar gael i’r sectorau tir ac yn esbonio dethol dau beiriant gwahanol at dasgau penodol. Bydd y dasg yn galw am ddethol rhyw fath o brif symudydd a yrrir megis tractor, cerbyd cludo neu beiriant a yrrir megis torrwr gwair. Bydd mwyafrif y dystiolaeth yn dechnegol gywir a pherthnasol. Bydd y dysgwyr yn adrodd am addasrwydd y peiriannau ar gyfer ystod o amodau. Gallai eu hymateb fod yn gyfyngedig o ran cwmpas neu’n anghytbwys mewn rhannau, ond bydd yn briodol gan mwyaf, ac yn cynnwys cyfeiriadau realistig a phenodol at iechyd a diogelwch, a chyfeiriadau cyfyngedig ond priodol at gynaliadwyedd.


© Pearson Education Limited 2021

## Nod dysgu B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn gwerthuso safon ansoddol y gwaith ymarferol a gyflawnwyd i gwblhau tasgau yn erbyn yr amcanion a roddwyd, sy'n cynnwys bodloni gofynion iechyd a diogelwch perthnasol. Bydd y dysgwyr yn cefnogi eu barn â beirniadaeth resymedig sy'n argyhoeddi. Bydd y dysgwyr yn darparu tystiolaeth benodol a ddetholwyd yn dda i ddangos sut a pham mae eu gwaith yn bodloni'r gofynion penodol, gan wneud cysylltiadau rhesymegol a chadarn rhwng eu perfformiad a'r brîff a roddwyd.

Bydd y dysgwyr yn arddangos defnyddio peiriannau cymhleth, sy'n galw am weithrediadau lluosog a defnyddio cyfarpar priodol. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys defnyddio cyfarpar cychwyniad pŵer (PTO) pweredig wedi'i fowntio â chysylltiad thri phwynt. Cyflawnir y tasgau'n effeithlon, yn gywir ac yn llwyr, gan fodloni gofynion y fanyleb. Bydd y dysgwyr yn gweithio'n ddiogel at safon ddiwydiannol broffesiynol a byddant yn cydymffurfio ag arfer gorau'r lleoliad gwaith bob tro.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cyflawni'n ddiogel dasgau gyda pheiriannau cymhleth sy'n galw am nifer o gamau gweithredu, gan ddefnyddio cyfarpar priodol ac amrywiaeth o offer a deunyddiau. Bydd y dysgwyr yn arddangos defnydd o gyfarpar PTO pweredig wedi'i fowntio â chysylltiad thri phwynt. Bydd y dysgwyr yn dangos tystiolaeth glir o baratoi a gweithredu peiriannau tir cymhleth i fodloni amcanion penodol. Cyflawnir y tasgau'n effeithlon, yn gywir ac yn llwyr, gan fodloni gofynion y fanyleb. Bydd y dysgwyr yn gweithio at safon gweithiwr cymwys.

Bydd y dysgwyr yn arddangos arfer gorau'r gweithle trwy weithio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan sicrhau bod y gweithle wedi'i baratoi ac yn glir. Byddant yn deall yr angen am weithdrefnau offer, deunyddiau a chyfarpar cywir, ac yn eu harddangos, gan gynnwys dethol, cludo, cynnal a chadw a storio.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau'n gymwys, yn ddiogel ac yn llwyr, gan fodloni gofynion y fanyleb. Bydd y dysgwyr yn paratoi ac yn gweithredu peiriannau tir syml megis torwyr gwair a yrrir a thractorau ar gyfer cludo. Byddant yn gweithio at safon gweithiwr newydd.

Bydd y dysgwyr yn arddangos arfer derbyniol y gweithle trwy weithio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan sicrhau bod y gweithle yn cael ei glirio ar ôl cwblhau'r dasg. Byddant yn arddangos gweithdrefnau offer, deunyddiau a chyfarpar cywir gan mwyaf, gan gynnwys dethol, cludo, cynnal a chadw a storio.

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth realistig o sut gellir defnyddio technegau gweithredu gwahanol, er y gallai rhai agweddau o'u dealltwriaeth fod yn gyfyngedig.

## Nod dysgu C

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn adolygu'n drylwyr effeithiolrwydd y technegau a'r arferion gweithdy a ddefnyddir i gwblhau tasgau, gan gefnogi eu barn â dyfarniadau rhesymegol sy'n trafod yr holl ffactorau perthnasol. Bydd y dysgwyr yn gwerthuso ac yn adrodd ar sut arweiniodd y technegau a'r arferion a ddefnyddiwyd at weithredwr yn cynnal a chadw ac atgyweirio yn arferol mewn modd effeithlon, cywir a llwyr. Yn yr un modd, bydd y dysgwyr yn darparu gwerthusiad manwl o'r opsiynau sydd ar gael i gyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arferol gweithredwr, gan roi rhesymau penodol sy'n cysylltu'n rhesymegol â'u barn. Bydd y dysgwyr yn gwaredu unrhyw ddeunyddiau gwastraff mewn modd sy'n cydymffurfio'n llawn ag arferion derbyniol ac sy'n dangos ystyriaeth lawn o gysyniadau ac arferion cynaliadwyedd. Bydd y dystiolaeth yn defnyddio terminoleg berthnasol a chywir drwyddi draw, gan gefnogi ymateb ystyriol a chynhwysfawr.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau'n effeithlon, yn gywir ac yn llwyr, gan fodloni'r fanyleb. Bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio arferol yn hyfedr, heb wallau, gan ddefnyddio cyfarpar priodol ac amrywiaeth o offer a deunyddiau. Byddant yn gweithio at safon gweithiwr cymwys.

Bydd y dysgwyr yn arddangos arfer gorau'r gweithle trwy weithio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan sicrhau bod y gweithle wedi'i baratoi ac yn glir. Byddant yn deall yr angen am weithdrefnau offer, deunyddiau a chyfarpar cywir ac yn eu harddangos, gan gynnwys dethol, cludo, cynnal a chadw a storio. Bydd y dysgwyr yn gwaredu unrhyw ddeunyddiau gwastraff mewn modd sy'n cydymffurfio'n llwyr ag arferion derbyniol.

Bydd y dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth glir o'r opsiynau ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw trwy asesu ac adrodd yn gywir am ddiffygion posib mewn peiriant a defnyddio data'r gweithgynhyrchwr i nodi rhannau amnewid yn gywir. Bydd asesiad y dysgwyr yn glir ac yn dechnegol gywir. Byddant yn defnyddio iaith dechnegol briodol yn eu tystiolaeth ond gallai hyn fod yn anghyson.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn arddangos eu bod yn gallu gweithio'n ddiogel ac yn llwyr, gan fodloni gofynion y fanyleb. Fodd bynnag, gallai fod ambell fân wall neu aneffeithlonrwydd. Byddant yn cyflawni tasgau cynnal a chadw arferol gweithredwr, sy'n galw am nifer bach o weithrediadau ac ystod gyfyngedig o offer a deunyddiau. Byddant yn gweithio at safon gweithiwr newydd.

Bydd y dysgwyr yn arddangos arferion gweithle derbyniol trwy weithio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan sicrhau bod y gweithle yn cael ei glirio ar ôl cwblhau tasg. Byddant yn arddangos gweithdrefnau offer, deunyddiau a chyfarpar cywir, gan gynnwys dethol, cludo, cynnal a chadw a storio. Bydd unrhyw ddeunyddiau gwastraff yn cael eu gwaredu yn unol ag arferion gwaith derbyniol.

Bydd y dysgwyr yn rhoi esboniadau realistig ond cyfyngedig o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethu ac atgyweirio peiriannau, gan ddefnyddio peth iaith dechnegol.

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu ag *Uned 1: Cyfrifoldebau Gweithio Proffesiynol*.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- dosbarthiadau meistr
- gweithdai technegol yn cynnwys staff o sefydliadau tir lleol
- cyfrannu syniadau ar gyfer deunydd aseiniadau/prosiectau'r uned
- arsylwi profiad gwaith
- cefnogaeth fentora gan staff sefydliadau tir lleol.


© Pearson Education Limited 2021

# Uned 28: Arferion Ffermio Amaethyddol Cymwysedig

Lefel: **3**

Math o uned: **Mewnol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **120**

## Crynodeb o'r uned

Bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a sgiliau perthnasol i gynhyrchu cnydau a systemau da byw fferm er mwyn datblygu cynllun rheoli fferm.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae cynhyrchu llwyddiannus ar fferm yn galw am ystyried adnoddau'n ofalus, gwybodaeth eang am arferion gweithio proffesiynol ar fferm a sgiliau ymarferol datblygedig ym maes cynhyrchu cnydau a hwsmonaeth anifeiliaid. Mae'r gallu i ddethol a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau cynhyrchu ar fferm yn annibynnol yn hanfodol i unrhyw un sy'n gweithio yn y sector amaethyddiaeth.

Yn yr uned hon, byddwch yn llunio cynllun rheoli arfer fferm sy'n ceisio datblygu lefelau cynhyrchedd fferm. Byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth ehangach o arferion amaethyddol, ynghyd â gwybodaeth arbenigol newydd a sgiliau a ddatblygwyd yn yr uned hon yn ymwneud â chynhyrchu cnydau, a chynhyrchu a hwsmonaeth da byw. Bydd eich cynllun rheoli yn ystyried pob agwedd ar y gylchred gynhyrchu, gan gynnwys lles anifeiliaid, maeth a thrin, cynnal a chadw cnydau, cynaeafu a storio, a bydd yn nodi cyfleoedd ac yn awgrymu strategaethau ar gyfer gwella cynhyrchedd.

Mae'r uned hon yn cynnwys y dasg asesu alwedigaethol allweddol o werthuso arferion ffermio a datblygu cynllun rheoli arfer ffermio sy'n ceisio cyflawni'r lefelau cynhyrchedd gorau posibl. Bydd angen i chi ddethol a chymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r cynnwys gorfodol a'ch dysgu ehangach o'r rhaglen gyfan. Byddwch yn dethol ac yn cymhwyso'ch gwybodaeth a'ch sgiliau o *Uned 1*: *Cyfrifoldebau Gweithio Proffesiynol*, *Uned 5: Sgiliau Ystâd* ac *Uned 8: Gweithrediadau Peiriannau Tir.* Byddwch hefyd yn defnyddio'ch profiad o arferion gweithio go iawn yn y sector o *Uned 4*: *Profiad Gwaith yn y Sectorau Tir*.

Bydd yr uned yn rhoi'r sgiliau i chi reoli'n annibynnol gynhyrchu cnydau ac anifeiliaid ar fferm mewn modd proffesiynol. Bydd y sgiliau hyn yn rhoi mantais i chi wrth symud ymlaen i gyflogaeth mewn rôl megis gweithiwr fferm cyffredinol, cynorthwy-ydd da byw neu swyddog treialu cnydau cynorthwyol. Bydd y sgiliau hefyd yn eich helpu i symud ymlaen i gyflogaeth gyffredinol mewn cyd-destun ffermio cymysg ac i astudio ymhellach mewn prentisiaeth neu addysg uwch.

## Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch chi'n:

**A** Archwilio a chynnal cynhyrchu cnydau iach

**B** Ymchwilio i systemau da byw a chyflawni tasgau hwsmonaeth anifeiliaid

**C** Adolygu arferion ffermio a chyfleoedd ar gyfer cynhyrchu

**D** Llunio cynllun rheoli arferion ffermio i ddatblygu lefelau cynhyrchedd fferm.

## Crynodeb o’r uned

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **A** Archwilio a chynnal cynhyrchu cnydau iach | **A1** Planhigion cnydau a’u cynnyrch<br>**A2** Egwyddorion sefydlu ac amaethu cnydau<br>**A3** Egwyddorion cynnal cnydau iach<br>**A4** Cynaeafu a storio cnydau yn ddiogel | Portffolio o dystiolaeth ar gynhyrchu cnydau’n ymarferol gan gynnwys: paratoi, cynnal a chadw, cynaeafu a storio. |
| **B** Ymchwilio i systemau da byw a chyflawni tasgau hwsmonaeth anifeiliaid | **B1** Mathau o dda byw fferm a’u bridiau<br>**B2** Systemau cynhyrchu da byw<br>**B3** Rheoli lles da byw a gaiff eu ffermio | Portffolio o dystiolaeth am hwsmonaeth ymarferol da byw gan gynnwys: trin, porthi a maeth. |
| **C** Adolygu arferion ffermio a chyfleoedd ar gyfer cynhyrchu | **C1** Paramedrau arferion ffermio i’w gwerthuso<br>**C2** Gwerthuso anghenion fferm a’r cyfleoedd iddi | Gwerthusiad neu gynllun rheoli arferion ffermio yn ysgrifenedig neu wedi’i gyflwyno, ac wedi’i gefnogi gan awdit fferm. |
| **D** Llunio cynllun rheoli arferion ffermio i ddatblygu lefelau cynhyrchedd fferm | **D1** Cynllun rheoli arferion ffermio | |

 © Pearson Education Limited 2021

## Cynnwys

### Nod dysgu A: Archwilio a chynnal cynhyrchu cnydau iach

Bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth am nodweddion a dibenion rhywogaethau cnydau a dyfir yn fasnachol.

#### A1 Planhigion cnydau a'u cynnyrch

- Cnydau blynyddol, eilflwydd, lluosflwydd.
- Adnabod mathau o gnydau, gan gynnwys:
  - grawn, e.e. gwenith, haidd, ceirch, rhyg, rhygwenith
  - hadau olew, e.e. hadau olew rêp, had llin
  - cnydau porthi, e.e. glaswellt, corn
  - gwraidd-gnydau, e.e. betys siwgr, betys porthi, tatws
  - cnydau llysiau, e.e. bresych, cnydau salad
  - codlysiau a chorbys, e.e. pys, ffa
  - ffrwythau, e.e. coed, meddal
  - cnydau bychan ac arbenigol, e.e. miscanthus, tafod yr ych, hadau caneri.
- Dethol cyltifarau at anghenion cynhyrchu gwahanol.

#### A2 Egwyddorion sefydlu ac amaethu cnydau

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i'r gofynion ar gyfer creu sylfeini llwyddiannus i dyfu cnydau a phennu'r gwahanol fathau o amaethu a ddefnyddir wrth gynhyrchu cnydau.

- Poblogaethau targed, cyfraddau hadau a bylchiad planhigion.
- Amseriad sefydlu, e.e. hydref neu wanwyn.
- Systemau sefydlu cnydau.
- Peiriannau amaethu a sefydlu.
- Cylchdroi cnydau a dilyniannau cnydio
- Amodau gwelyau had, dyfnder plannu a phwysigrwydd cyswllt hadau-pridd.
- Gorchuddion hadau.
- Hinsawdd, topograffi a'r math o bridd.

#### A3 Egwyddorion cynnal cnydau iach

- Adnabod cyfnodau tyfu a datblygu.
- Rheoli chwyn, plâu a chlefydau, gan gynnwys:
  - rheolaeth feithrin, ffisegol, cemegol a biolegol
  - effaith ar gnydiad ac ansawdd.
- Gofynion maeth cnydau a chyfrifo gofynion maeth planhigion, gan gynnwys:
  - y prif faetholion (nitrogen, ffosffad a photasiwm (*potash*), sylffwr, magnesiwm)
  - elfennau mân a hybrin, e.e. boron, manganîs.
- Adnabod diffygion maeth mewn cnydau.
- Rheoli pridd, e.e. dwrlawnder, lefelau maetholion, pH y pridd.
- Ffynonellau maeth planhigion, gan gynnwys:
  - gwrtaith organig
  - gwrtaith anorganig.
- Deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol cyfredol penodol yn ymwneud â chynhyrchu cnydau.
- Manipwleiddio twf planhigion, e.e. rheoli twf planhigion, amseriad plannu.
- Aeddfedu ac aeddfedrwydd cnydau.
- Dulliau amddiffyn cnydau, e.e. plastig, polidwnel.

 © Pearson Education Limited 2021 

### A4 Cynaeafu a storio cnydau yn ddiogel

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i bob agwedd ar gylchred gynhyrchu cnydau, o'u sefydlu a maeth cnydau hyd at gynaeafu a storio.

- Rheoli cyn-cynaeafu, e.e. dysychiad, tynnu coesynnau.
- Dulliau cynaeafu ar gyfer cnydau y gellir eu dyrnu, cnydau ffres a chynaeafu â llaw.
- Ystyriaethau iechyd a diogelwch yn y storfa gnydau, gan gynnwys:
  - cyswllt â llwch, atal afiechydon, e.e. clefyd y ffermwr
  - gofynion cyfarpar diogelu personol (*PPE*)
  - peryglon posib.
- Agweddau allweddol ar storio cynnyrch ffres a sych yn ddiogel, gan gynnwys:
  - dulliau o gyflyru cnydau yn y storfa a'r defnydd o ychwanegion
  - effaith storio ar ansawdd cnydau, e.e. rheoli tymheredd
  - rheoli plâu, clefydau a fermin storfeydd
  - gofynion diogelwch bwyd, e.e. cynlluniau sicrwydd
  - amseriad storio, e.e. tymor byr, tymor hir, storio ar y cyd.
- Monitro hylendid storfa.
- Gwahanu cnydau a'r rhesymau dros wahanu cnydau.
- Defnydd o gnydau a sgîl-gynnyrch cnydau ar fferm.

## Nod dysgu B: Ymchwilio i systemau da byw a chyflawni tasgau hwsmonaeth anifeiliaid

### B1 Mathau o dda byw fferm a'u bridiau

Bydd y dysgwyr yn archwilio nodweddion a dibenion bridiau da byw yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys rhai brodorol a rhai a fewnforiwyd.

- Defaid ar gyfer bwyd, gwlân a sgîl-gynnyrch, gan gynnwys defaid brîd pur a chroesryw, e.e. Goror Caerlŷr, *Suffolk*, Jacob, Gwlân Hir *Lincoln*, *Texel*, *Charolais*.
- Moch ar gyfer bwyd a sgîl-gynnyrch, gan gynnwys bridiau cymysgryw a phur, e.e. *Tamworth*, Cyfrwyog, *'Old Spot'* Swydd Gaerloyw, Gwyn Mawr, *Landrace*, *Duroc*.
- Dofednod ar gyfer cig, wyau a sgîl-gynnyrch, bridiau cymysgryw a phur, e.e. *Buff Orpington*, *Araucana*, *Legbar*, *Faverolles*, hwyaid *Aylesbury*.
- Gwartheg ar gyfer cig, llaeth a sgîl-gynnyrch, e.e. Henffordd, *Red Poll*, *Longhorn*, *Angus*, Duon Cymreig, *Galloway*, *Jersey*, *Limousin*.
- Geifr ar gyfer llaeth, cig a sgîl-gynnyrch, gan gynnwys bridiau cymysgryw a phur, e.e. *Bagot*, Geifr *Toggenburg* Prydeinig, *Golden Guernsey*, *Angora* a *Primitive* Prydeinig, *Saanens*.
- Arallgyfeirio da byw anghonfensiynol, e.e. estrysod ar gyfer cig, alpacas ar gyfer cnu.

### B2 Systemau cynhyrchu da byw

Bydd y dysgwyr yn deall y gwahanol fathau o systemau cynhyrchu yn y Deyrnas Unedig megis ffermio dwys, organig, lled-ddwys, helaeth a mega, a byddant yn gwybod y gwahanol gategorïau o fewn pob system.

- Amrywiaeth a nodweddion systemau cynhyrchu cyffredin ar gyfer da byw cyffredin a safonau lles ac ansawdd y cynnyrch a gynhyrchir:
  - dofednod (brwyliaid, ieir dodwy)
  - gwartheg (eidion a godro)
  - moch (stoc bridio, porc, bacwn, moch trwm, bridiau amgen)
  - defaid (iseldir, ucheldir, mynydd)
  - pysgod (helaeth a dwys).
- Dosbarth y stoc, oed y stoc, hyd cylch cynhyrchu'r anifeiliaid.

 © Pearson Education Limited 2021

### B3 Rheoli lles da byw a gaiff eu ffermio

Bydd y dysgwyr yn deall y berthynas rhwng lefelau uchel o les anifeiliaid a busnes cynhyrchiol a gaiff ei redeg yn dda; gan gynnwys gofynion allweddol ar gyfer porthi a lletya da byw.

- Rhoi porthiant a dŵr:
  - mathau o borthiant, digymysg, cymysgedd, porthiant cyfansawdd, dwysfwyd, fforio a phorthi
  - cynhyrchu gwair, gwywair, silwair a gwellt
  - gofynion maeth ar gyfer rhywogaeth fferm
  - blasusrwydd porthiannau ac effaith ar ymddygiad
  - cyfarpar porthi a rhoi dŵr o brotocolau ar gyfer rhywogaethau da byw, gan gynnwys:
    - yfwyr awtomatig
    - cafnau, bwcedi, porthwyr, rheseli a systemau awtomatig
  - datblygu protocolau porthi cynhyrchiol ar gyfer rhywogaethau da byw i fwyafu gwerth yr anifail, gan gynnwys:
    - storio porthiant, gan gynnwys rheoliadau ac ystyriaethau ymarferol
    - paratoi porthiant
    - hylendid
    - cyfarpar diogelu personol (PPE).
- Ystyriaethau llety, gan gynnwys:
  - dylunio a chynnal a chadw llety dan do ac awyr agored, a'r effaith ar les anifeiliaid, gan gynnwys maint, lle, awyriad a diogeledd
  - deddfwriaeth a chodau ymarfer penodol i lety, gan gynnwys:
    - dyraniadau gofod
    - y Pum Rhyddid
  - gwaredu gwastraff:
    - organig, e.e. tail
    - anorganig, e.e. sachau porthi.
- Trin anifeiliaid , gan gynnwys:
  - trin yn ymarferol, atal a defnyddio cyfarpar megis tenynnau, penffrwynau, rhaffau, polion teirw, byrddau moch, padlau, ffyn slapio gwastad, ffensys trydan, gwasgfeydd, unedau iau, corlannau, clwydi, cratiau, rhedfeydd gwartheg
  - defnyddio cloriannau pwyso
  - technegau ymarferol trin ac atal mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys:
    - defnyddio cyfarpar yn ddiogel
    - dulliau atal cywir ar gyfer maint yr anifail
    - llwytho a dadlwytho
    - ystyriaethau diogelwch a rheoli risgiau.

## Nod dysgu C: Adolygu arferion ffermio a chyfleoedd ar gyfer cynhyrchu

Wrth gyflawni'r dasg alwedigaethol allweddol o adolygu, gwerthuso a chynllunio rheoli arferion ffermio, rhaid i'r dysgwyr ddethol a chymhwyso dysgu o *Uned 1: Cyfrifoldebau Gweithio Proffesiynol*, *Uned 5: Sgiliau Ystâd, Uned 8: Gweithrediadau Peiriannau Tir* ac *Uned 4: Profiad Gwaith yn y Sectorau Tir.*

### C1 Paramedrau arferion ffermio i'w gwerthuso

Bydd y dysgwyr yn myfyrio ar eu defnydd o sgiliau cynhyrchu cnydau a hwsmonaeth anifeiliaid, ac yn ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu eu sgiliau ffermio yn broffesiynol ac yn ymarferol.

- Paramedrau ar gyfer gwerthuso effaith arfer proffesiynol ar gynhyrchiad fferm, gan gynnwys:
  - dilyn prosesau a gweithdrefnau
  - effaith rheoli gwastraff ar gynnyrch fferm
  - y defnydd o gyfarpar a'r effaith ar gynnyrch fferm
  - ymateb i risgiau a pheryglon
  - cynnal safonau a bodloni'r gofynion ansawdd ar gyfer cynlluniau sicrwydd fferm

  - effaith gwybodaeth am y busnes a/neu'r amgylchedd ar arfer
  - effaith cyfathrebu ac adrodd ar gynhyrchedd
  - cwblhau gweithgareddau a chydweithredu wrth weithio gyda chnydau ac anifeiliaid
  - rheoli eu rôl, eu cyfrifoldeb a'u dibynadwyedd eu hunain
  - myfyrio parhaus a defnyddio adborth i hysbysu datblygiad
  - technegau hunanasesu.
- Defnyddio asesu parhaus wrth ymarfer, gan gynnwys:
  - asesiadau iechyd gweledol
  - asesiadau ymddygiadol, gan gynnwys ymddygiad penodol i rywogaeth, patrymau, rhyngweithio ag anifeiliaid eraill
  - adnabod cnydau iach ac afiach, e.e. cyfnodau tyfu cnydau
  - adnabod cyfnodau tyfu a datblygu
  - adnabod diffygion maeth mewn cnydau
  - defnyddio camau adferol.
- Monitro cynhyrchu ar fferm, gan gynnwys:
  - cnydiad, tunelli fesul hectar (t/ha)
  - archwilio ansawdd yn weledol ac fel mater o drefn
  - ansawdd y cynnyrch
  - pwysau adeg lladd
  - cofnodion bridio
  - effaith defnyddio meddyginiaeth filfeddygol
  - monitro hylendid storfa
  - profi cywirdeb canlyniadau, e.e. profion pridd, profi llaeth.

**C2 Gwerthuso anghenion fferm a'r cyfleoedd iddi**

- Awdit a stocrestr o gynhyrchedd fferm, gan gynnwys:
  - lefelau cynhyrchedd cyfredol, e.e. allbwn fesul hectar
  - asesu seilwaith, e.e. adeiladau a pheiriannau, lleoliad
  - stocrestr adnoddau, tir, adeiladau, cnydio a niferoedd da byw
  - adolygu ansawdd cynnyrch cyfredol
  - prosesau a chymhorthion gweithgareddau cynllunio, gan gynnwys technoleg, cyllidebau, amserlenni a siartiau llif.
  - asesu ystodau a symiau, e.e. defnydd o fapiau, diagramau, cynlluniau, mesuriadau, amcangyfrifon
  - dadansoddiad SWOT, gan gynnwys:
    - nodweddion unigryw, pwyntiau gwahanol
    - nodweddion trefniadaethol
    - staffio
    - adnoddau
    - gallu tir neu gyfleusterau, math o bridd a lefel ffrwythlondeb
    - datblygiadau i dueddiadau'r farchnad
    - newidiadau mewn patrymau cymdeithasol, poblogaethau a newidiadau dull bywyd
    - technoleg newydd ddatblygol
    - newidiadau i bolisi'r llywodraeth
    - cystadleuwyr lleol
    - cyflwyniad i safonau ansawdd a manylebau
    - cystadleuaeth
    - ffactorau mewnol
    - ffactorau allanol.


© Pearson Education Limited 2021

## Nod dysgu D: Llunio cynllun rheoli arferion ffermio i ddatblygu lefelau cynhyrchedd fferm

### D1 Cynllun rheoli arferion ffermio

- Nodau ac amcanion y cynllun, i gwmpasu:
  - nodi'r cynllun
  - rhesymau dros gynnal y cynllun
  - dilysrwydd y cynllun.
- Y tir, yr adeilad neu'r cyfleusterau sy'n ofynnol:
  - math o bridd, topograffi a chnydio
  - adeiladau a llety.
- Strategaeth plâu a chlefydau, i gwmpasu:
  - problemau plâu, lefelau trothwy, materion cyfredol.
- Strategaethau rhoi gwrtaith a phorthi:
  - strategaeth maetholion gwrtaith:
    - ystyriaethau deddfwriaethol, e.e. ardaloedd Parthau Perygl Nitradau (NVZ)
    - ffynonellau gwrtaith, e.e. naturiol, artiffisial
  - Porthi anifeiliaid:
    - porthi ar gyfer twf.
- Strategaeth lety:
  - systemau dan do, e.e. adeiladau
  - systemau awyr agored, e.e. lle ar y tir a defnydd o gaeau.
- Strategaeth wastraff:
  - gwaredu cynnyrch gwastraff, gan gynnwys ailgylchu ac ailddefnyddio.
- Y cyfarpar gofynnol, ffynonellau a deunyddiau cyflenwyr a chyflenwadau, gan gynnwys:
  - cyflenwyr porthiant
  - cyflenwyr cynnyrch iechyd anifeiliaid
  - cyflenwyr hadau
  - cyflenwyr gwrtaith.
- Amserlen, e.e. cynllun 1-, 2- a 3 blynedd, tasgau rheolaidd, tasg unwaith yn unig.
- Paramedrau ansawdd, gan gynnwys:
  - anifeiliaid, e.e. ffurfiad carcas
  - cnydau, e.e. lleithder, protin, cymysgiadau.
- Cynllun cynnal a chadw ar gyfer cyfleusterau a chyfarpar:
  - cynnal a chadw rheolaidd, e.e. terfynau, toeon a gwaith strwythurol.
- Strategaeth gynhyrchu, e.e. arbenigo, ehangu gallu, integreiddio prosesu, arallgyfeirio.
- Rheoliadau a thrwyddedu, gan gynnwys:
  - rhoi plaleiddiaid, tystysgrifau cymhwyso, e.e. PA1, PA2
  - ffynonellau hadau â thystysgrif, ardystiad UFAS
  - ystyriaethau moesegol a moesol
  - lles anifeiliaid
  - codau ymarfer a argymhellir
  - deddfwriaeth, e.e. Deddf Lles Anifeiliaid 2006
  - tystysgrifau cymhwyso, e.e. defnydd diogel o feddyginiaethau milfeddygol.
- Asesiadau risg ar gyfer lles pobl ac anifeiliaid, gan gynnwys:
  - asesu risgiau ac adnabod peryglon, e.e. anifeiliaid, cyfarpar a phobl
  - lleiafu effaith peryglon, gan gynnwys cyfrifoldebau deddfwriaethol.
- Amlder, math a strategaeth gofnodi archwilio a chynnal awdit, gan gynnwys:
  - cynlluniau sicrwydd fferm
  - cynlluniau Tractor Coch
  - archwilio a monitro cnydau yn rheolaidd am chwyn, plâu a chlefydau
  - gwirio da byw bob dydd
  - camau gweithredu adferol.

## Meini prawf asesu

<table>
<tr><th>Llwyddo</th><th>Teilyngdod</th><th>Rhagoriaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu A: Archwilio a chynnal cynhyrchu cnydau iach</td><td rowspan="2">A.Rh1 Gwerthuso a chyfiawnhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd arfer cynhyrchu cnydau ac effaith rheoli a storio cnydau ar gynhyrchedd ac ansawdd y system.</td></tr>
<tr><td>A.Ll1 Archwilio nodweddion gwahanol gnydau, gofynion allweddol ar gyfer sefydlu cnydau a dulliau amaethu.<br>A.Ll2 Monitro, cynaeafu a storio cnwd penodol yn ddiogel i hybu cnydau iach.</td><td>A.T1 Dadansoddi’r paramedrau sy’n dylanwadu ar gynhyrchiad, ansawdd a chnydiad cnydau.<br>A.T2 Cymhwyso egwyddorion rheoli cymwys ar gyfer cynhyrchu cnydau iach, gan gynnwys camau gweithredu adferol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu B: Ymchwilio i systemau da byw a chyflawni tasgau hwsmonaeth anifeiliaid</td><td rowspan="2">B.Rh2 Ymarfer hwsmonaeth anifeiliaid yn effeithiol, gan ddangos dealltwriaeth hyderus o’r ffactorau sy’n effeithio ar les ac ansawdd cynnyrch trwy adolygu eu perfformiad eu hunain.</td></tr>
<tr><td>B.Ll3 Asesu nodweddion gwahanol systemau cynhyrchu, eu bridiau a’u cynnyrch, gan ystyried yr effaith ar les.<br>B.Ll4 Cymhwyso arfer maeth priodol ar gyfer da byw, yn seiliedig ar ymchwilio i ofynion maeth da byw fferm a’r berthynas ag ansawdd cynnyrch.<br>B.Ll5 Dethol a defnyddio technegau trin ac atal diogel a phriodol, a defnyddio cyfarpar i gynnal lles da byw.</td><td>B.T3 Dadansoddi’r ffactorau sy’n pennu ansawdd y da byw mewn system gynhyrchu da byw fferm o fewn eu harfer eu hunain.<br>B.T4 Arddangos technegau trin ac atal effeithlon a chywir wrth gynnal iechyd a lles anifeiliaid da byw.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu C: Adolygu arferion ffermio a chyfleoedd ar gyfer cynhyrchu</td><td rowspan="4">CD.Rh3 Llunio cynllun rheoli cynhyrchedd fferm dichonol ac effeithiol a chyfiawnhau sut bydd penderfyniadau’n cynyddu cynhyrchedd, yn seiliedig ar werthuso arferion ffermio amaethyddol yn feirniadol.</td></tr>
<tr><td>C.Ll6 Asesu am arwyddion effaith ar les, iechyd a diffygion cynnyrch amaethyddol o fewn eu harfer eu hunain.<br>C.Ll7 Archwilio’n briodol addasrwydd proses gynhyrchu fferm i gynyddu cynhyrchedd.</td><td>C.T5 Cyflawni systemau monitro cynhyrchu fferm yn effeithiol gyda lefel uchel o gywirdeb, gan werthuso effaith arferion ffermio ar gynhyrchedd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod dysgu D: Llunio cynllun rheoli arferion ffermio i ddatblygu lefelau cynhyrchedd fferm</td></tr>
<tr><td>D.Ll8 Llunio cynllun rheoli cynhyrchedd fferm yn briodol sy’n dethol ac yn defnyddio sgiliau arferion ffermio.</td><td>D.T6 Llunio cynllun rheoli cymwys ar gyfer cynhyrchedd fferm, yn seiliedig ar archwilio, asesu a chymharu cynhyrchedd cyfredol fferm.</td></tr>
</table>

 © Pearson Education Limited 2021

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer aseiniadau

Dangosir y strwythur asesu a argymhellir yn y crynodeb o'r uned, ynghyd â mathau addas o dystiolaeth. Mae *Adran 6* yn cynnwys gwybodaeth am osod aseiniadau ac mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Bydd uchafswm o dri aseiniad crynodol ar gyfer yr uned hon. Dyma'r berthynas rhwng y nodau dysgu a'r meini prawf:

Nod dysgu: A (A.Ll1, A.Ll2, A.T1, A.T2, A.Rh1)

Nod dysgu: B (B.Ll3, B.Ll4, B.Ll5, B.T3, B.T4, B.Rh2)

Nodau dysgu: C a D (C.Ll6, C.Ll7, C.Ll8, C.T5, C.T6, CD.Rh3)

 © Pearson Education Limited 2021

# Gwybodaeth bellach i athrawon ac aseswyr

## Gofynion o ran adnoddau

Ar gyfer yr uned hon, rhaid i’r dysgwyr gael mynediad i:

- dda byw fferm
- cyfarpar trin anifeiliaid
- amrywiaeth o gnydau i’w harchwilio’n rheolaidd
- cyfleusterau storio cnydau
- cyfarpar diogelu personol
- clorian bwyso da byw.

## Gwybodaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau asesu

### Nod dysgu A

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn llunio dadleuon yn hyderus ac yn effeithiol i werthuso addasrwydd systemau cynhyrchu cnydau, gan gynnwys systemau cnydio blynyddol, eilflwydd a lluosflwydd, ac yn rhesymu ac yn cyfiawnhau’r penderfyniadau a wnaed yn fanwl. Bydd y dysgwyr yn arddangos mewnwelediad eang o’r ffactorau sy’n effeithio ar y system gnydau ac yn dangos lefel effeithiol o sgiliau ar gyfer cynnal a rheoli cnydau, yn seiliedig ar arsylwi a gwerthuso parhaus a myfyriol. Bydd y dysgwyr yn cyflwyno rhesymeg fanwl wrth drafod nodweddion a dibenion cynhyrchu cnydau, gan gynnwys sefydlu, iechyd cnydau a storio cnydau. Bydd y dysgwyr yn cynnig enghreifftiau cyson ddilys, a ddewiswyd yn ofalus i gefnogi eu barn. Bydd y dystiolaeth yn dangos defnydd hyderus o derminoleg ac egwyddorion amaethyddol gywir drwyddi draw.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn ystyried yn ofalus addasrwydd systemau cynhyrchu cnydau, gan gynnwys systemau cnydio blynyddol, eilflwydd a lluosflwydd. Byddant yn dadansoddi’r paramedrau sy’n rhan a’r dylanwad maent yn ei gael ar systemau cynhyrchu. Bydd y dysgwyr yn defnyddio egwyddorion rheoli cadarn ar gyfer agweddau allweddol ar baratoi, plannu, cynnal, cynaeafu a storio, ac yn rhoi cyfrif clir am sut caiff yr egwyddorion hyn eu cymhwyso i hybu cnydau iach, gan argymell rhai camau gweithredu adferol. Byddant yn cynnig enghreifftiau clir i gefnogi eu barn, gan ddarparu ymchwiliad manwl o nodweddion allweddol cnydau a’r paramedrau sy’n dylanwadu ar eu cynhyrchu. Bydd y dysgwyr yn annibynnol eu hymagwedd, gan ddangos eu bod wedi defnyddio ymchwil i ehangu eu dealltwriaeth o gyd-destunau llai cyfarwydd. Bydd y dystiolaeth yn dangos defnydd cymwys o derminoleg amaethyddol.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn ymchwilio i nodweddion cynhyrchu cnydau gyda pheth manylder ac yn dangos dealltwriaeth o systemau cynhyrchu cnydau blynyddol, eilflwydd a lluosflwydd. Bydd y dysgwyr yn ystyried nodweddion cnydau ac yn rhoi pwyntiau priodol am ofynion allweddol sefydlu ac amaethu. Bydd y dysgwyr yn cyflawni amrediad o dasgau’n ddiogel, gan ddefnyddio sgiliau plannu, monitro a chynaeafu ar gyfer hybu cnydau iach a defnyddio arferion storio priodol. Byddant yn darparu rhai enghreifftiau priodol i gefnogi eu barn, er bod y rhain yn debygol o fod heb eu datblygu. Gall fod rhai mân elfennau amherthnasol wrth ddefnyddio terminoleg amaethyddol briodol, gyda rhai elfennau’n cael eu hepgor.

 © Pearson Education Limited 2021

## Nod dysgu B

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn rhoi cyfrif trylwyr ac ystyrlon am wahanol systemau cynhyrchu da byw a'u heffaith ar les anifeiliaid. Bydd eu cyfrif yn cynnwys y brîd, y nodweddion a'r math o system, ac yn dangos dealltwriaeth o ofynion allweddol gwahanol systemau cynhyrchu. Bydd y dysgwyr yn dangos sut y bu iddynt ddefnyddio technegau effeithiol i drin ac atal rhywogaethau da byw fferm yn hyderus. Byddant yn cynnal archwiliad manwl, sy'n darbwyllo, er mwyn cyfiawnhau'r strategaethau porthi a deiet a fydd yn dangos eu bod yn gallu rheoli safonau lles anifeiliaid uchel sy'n adlewyrchu safonau ac arfer y diwydiant. Bydd y dysgwyr yn arddangos eu bod yn gallu cymhwyso sgiliau ymarferol mewn sefyllfaoedd cymhleth a'u bod yn gallu trin da byw yn ddiogel, gan arddangos defnydd hyfedr o gyfarpar trin ac atal. Bydd y dysgwyr yn rhoi rhesymeg fanwl i gyfiawnhau eu harfer, sy'n gallu cael effaith ar les anifeiliaid ac, yn ei dro, effaith negyddol ar system gynhyrchu. Byddant yn arddangos dyfnder ac ehangder eu dealltwriaeth o ddiben hwsmonaeth anifeiliaid wrth ffermio, gan ddefnyddio terminoleg amaethyddol benodol yn gywir drwyddo draw.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth eang o wahanol systemau cynhyrchu ac yn dyfarnu'n gymwys a pherthnasol gan mwyaf ynghylch eu buddion cymharol o ran cynhyrchedd a lles anifeiliaid. Byddant yn cynnwys manylion brîd yr anifeiliaid, eu nodweddion a'r mathau o system. Bydd y dysgwyr yn dangos sut gallant ddefnyddio technegau cadarn i drin ac atal da byw, a chydymffurfio â gofynion diogelwch. Byddant yn rhoi cyfrif cydlynol gan mwyaf o ddarparu porthiant, dŵr a maeth ar gyfer da byw; bydd y cyfrif yn cynnwys cyfeiriadau perthnasol gan mwyaf i ddangos eu bod yn gallu rheoli lles anifeiliaid. Bydd y dysgwyr yn dyfarnu'n ddilys gan mwyaf wrth drafod rheoli maeth anifeiliaid yn effeithlon, gan gysylltu effaith deiet a dulliau porthi â lles anifeiliaid. Byddant yn dangos yn fedrus eu bod yn gallu trin ac atal da byw mewn ystod o sefyllfaoedd, ac yn dangos cyfrifoldeb cymwys o fewn terfynau eu cyfrifoldeb. Byddant yn dyfarnu'n rhesymegol gan mwyaf i ddangos eu dealltwriaeth, gan ddefnyddio terminoleg amaethyddol gywir.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn rhoi cyfrif disgrifiadol ond realistig o systemau cynhyrchu, gan greu rhai cysylltiadau rhwng gwahanol fathau. Byddant yn rhoi peth manylder yn eu hymchwiliad, er y gallai hynny fod heb ei gefnogi mewn mannau; byddant yn rhoi rhai enghreifftiau priodol i gefnogi eu barn, er bod y rhain yn debygol o fod heb eu datblygu. Bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau ymarferol wrth drin ac atal, ac yn dangos peth menter o fewn terfynau eu cyfrifoldeb. Bydd y dysgwyr yn cwblhau tasgau'n ddiogel gan lynu at ofynion iechyd a diogelwch, gan reoli risgiau i ryw raddau. Bydd y dysgwyr yn dangos gwybodaeth briodol am ddarparu porthiant mewn deiet a'r system gynhyrchu. Byddant yn dangos dealltwriaeth briodol o ddewis porthiant a thechnegau porthi ar gyfer da byw cyffredin, gydag esboniadau cyffredinol ynghylch sut maent yn cael effaith ar les yn uniongyrchol. Bydd y dystiolaeth o arfer yn gyffredinol, gyda rhai elfennau amherthnasol, a bydd eu disgrifiad yn defnyddio terminoleg amaethyddol gyffredinol, er y bydd rhai elfennau wedi'u hepgor.

 © Pearson Education Limited 2021 

## Nodau dysgu C a D

Wrth gwblhau'r asesiad ar gyfer nodau dysgu C a D, mae disgwyl i'r dysgwyr ddethol, cymhwyso ac arddangos yn annibynnol wybodaeth a sgiliau priodol yn ymwneud ag arferion gweithio o *Uned 1: Cyfrifoldebau Gweithio Proffesiynol*, cynnal a chadw seilwaith o *Uned 5: Sgiliau Ystâd*, gweithredu a chynnal a chadw cyfarpar fferm o *Uned 8: Gweithrediadau Peiriannau Tir*, a safonau ac arferion y sector o *Uned 4: Profiad Gwaith yn y Sectorau Tir.*

**I gyrraedd safon rhagoriaeth,** bydd y dysgwyr yn llunio cynllun rheoli cynhyrchedd fferm perthnasol ac ymarferol bosib a allai gael ei roi ar waith gydag argaeledd adnoddau realistig. Bydd y cynlluniau'n seiliedig ar fonitro manwl a gwerthusiad cytbwys o'u dealltwriaeth, eu proffesiynoldeb a'u defnydd eu hunain o sgiliau. Bydd y dysgwyr yn gwneud arsylwadau craff ynghylch sut caiff eu harfer proffesiynol eu hunain, a'r arferion ffermio a ddefnyddir, effaith ar ganlyniadau cynhyrchu fferm. Byddant yn cymharu hyn ag archwiliad trylwyr a manwl o botensial cynhyrchu fferm, gan ystyried cyfyngiadau mewnol ac allanol. Bydd y dysgwyr yn mynd ati i archwilio a monitro'n hyderus, ac yn defnyddio dealltwriaeth eang a chyson o gynnal cnydau a lles anifeiliaid o fewn paramedrau arferion ffermio. Bydd monitro cynhyrchedd fferm yn digwydd mewn modd sicr a chywir, a bydd yn ystyried effaith arfer ar gynhyrchedd. Bydd y dysgwyr yn edrych yn gyson am gyfleoedd i ddatblygu a chanolbwyntio ar gynnal cnydau a lles anifeiliaid. Bydd hyn yn llywio cynllun â ffocws rhesymegol sy'n manteisio ar y potensial i ddatblygu eu hunain a chynhyrchedd fferm. Bydd y cynllun yn dangos nodau ac amcanion rhesymegol, gyda strategaeth â rhesymeg i'w rhoi ar waith ar draws yr holl brif feysydd, gan gynnwys adnoddau, camau gweithredu adferol ar gyfer plâu a chlefydau, maeth, lles, gwastraff, rhoi ar waith, rheoli risgiau ac archwilio. Bydd y cynllun yn nodi'n glir ac yn dangos y gwaith tuag at gefnogi agweddau eang ar anghenion trwyddedu a rheoleiddio.

**I gyrraedd safon teilyngdod,** bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynllun rheoli cynhyrchedd fferm cadarn sy'n cael ei lywio gan fonitro arferion ffermio a pheth cymharu â chyfleoedd cynhyrchu amgen. Bydd y cynlluniau'n seiliedig ar fonitro perthnasol a chywir a myfyrio ar eu dealltwriaeth, eu proffesiynoldeb a'u defnydd eu hunain o sgiliau. Bydd y dysgwyr yn gymwys wrth arsylwi eu harfer proffesiynol eu hunain a'r arferion ffermio a ddefnyddir, a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau cynhyrchedd ffermio cyffredinol. Byddant yn paratoi cynllun cynhyrchu fferm gan ystyried cyfyngiadau mewnol ac allanol. Bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn monitro'n fedrus ac yn dangos dealltwriaeth eang o gynnal cnydau a lles anifeiliaid o fewn paramedrau arferion ffermio. Bydd y dysgwyr yn edrych am gyfleoedd i ddatblygu a chanolbwyntio ar gynnal cnydau a lles anifeiliaid. Bydd hyn yn llywio cynllun cadarn sy'n archwilio'r potensial i ddatblygu eu hunain a chynhyrchedd fferm. Bydd y cynllun yn dangos nodau ac amcanion rhesymegol gan mwyaf, gyda strategaeth glir ar gyfer ei roi ar waith, sy'n cwmpasu'r prif feysydd, gan gynnwys adnoddau, camau gweithredu adferol ar gyfer plâu a chlefydau, maeth, lles, gwastraff, rhoi ar waith, rheoli risgiau ac archwilio. Bydd y cynllun yn nodi ac yn dangos gwaith tuag at gefnogi agweddau eang ar anghenion trwyddedu a rheoleiddio.

**I gyrraedd safon llwyddo,** bydd y dysgwyr yn cynnal lefel asesu wrth fynd ati i wirio am arwyddion diffyg mewn cnydau a da byw, a bydd hyn yn llywio eu harfer uniongyrchol, gyda pheth addasu i gynnal lles. Bydd y dysgwyr yn llunio arsylwadau priodol am eu harfer proffesiynol eu hunain a'r arferion ffermio a ddefnyddir, a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau cynhyrchedd ffermio cyffredinol. Byddant yn paratoi cynllun cynhyrchu fferm gan ystyried cyfyngiadau mewnol yn bennaf. Bydd y dysgwyr yn llunio asesiad cydlynol o addasrwydd y fferm er mwyn awgrymu syniadau ar gyfer cynyddu cynhyrchedd. Bydd hyn yn llywio cynllun sy'n disgrifio peth potensial ar gyfer eu datblygiad eu hunain a chynhyrchedd y fferm. Bydd y cynllun yn dangos nodau ac amcanion priodol, gyda strategaeth ar gyfer ei roi ar waith ar draws y prif feysydd, gan gynnwys adnoddau, camau gweithredu adferol ar gyfer plâu a chlefydau, maeth, lles, gwastraff, rhoi ar waith, rheoli risgiau ac archwilio. Bydd y cynllun yn nodi ac yn dangos gwaith tuag at gefnogi rhai agweddau ar anghenion trwyddedu a rheoleiddio.

 © Pearson Education Limited 2021

## Cysylltiadau ag unedau eraill

Dylid cwblhau'r uned hon tuag at ddiwedd y rhaglen. Er mwyn cwblhau'r tasgau asesu synoptig yn yr uned hon, dylai'r dysgwyr ddethol a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau perthnasol o rannau eraill o'r cynnwys gorfodol, gan gynnwys: arferion gweithio diogel, asesu risgiau a rheoli gwastraff o *Uned 1*: *Cyfrifoldebau Gweithio Proffesiynol*; rheoli seilwaith fferm o *Uned 5: Sgiliau Ystâd*; a gweithio'n ymarferol ac yn ddiogel gydag amrediad eang o beiriannau o *Uned 8: Gweithrediadau Peiriannau Tir.* Bydd y dysgwyr hefyd wedi cwblhau *Uned 4: Profiad Gwaith yn y Sectorau Tir*, a byddant yn gallu cymhwyso eu profiad o arferion gweithio go iawn yn y sector a'u dealltwriaeth ohonynt.

## Cyfranogiad cyflogwyr

Byddai'r uned hon yn elwa o gyfranogiad cyflogwyr ar ffurf:

- dosbarthiadau meistr ar gynhyrchu cnydau neu dda byw
- gweithdai technegol yn cynnwys staff o sefydliadau tir lleol
- cefnogaeth fentora gan staff fferm
- profiad gwaith ac adborth ar berfformiad
- mynediad at dda byw a phrosesau gweithio
- mynediad at brosesau gweithio cynhyrchu cnydau
- mynediad at gyfarpar a chyfleusterau gweithio megis peiriannau tir.


© Pearson Education Limited 2021